



# Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Cynnwys	Tudalen
Gweledigaeth ac Amcanion	2-3
Deilliant 1 – <i>Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</i>	4-10
Deilliant 2 - <i>Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i ysgol uwchradd</i>	11-13
Deilliant 3 – <i>Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg</i>	13-15
Deilliant 4 - <i>Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn seiliedig ar waith</i>	
Deilliant 5 - <i>Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg</i>	15-18
Deilliant 6 – <i>Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg</i>	18-19
Deilliant 7 – <i>Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)</i>	19-20
Pwyntiau Gweithredu a Symud Ymlaen	21-23
ATODIAD 1 – <i>Ychwanegiad Data y gofynnir amdano gan Lywodraeth Cymru</i>	
ATODIAD 2 - <i>Enghreiffiau o gynlluniau gweithredu blynyddol a fydd yn cael eu datblygu gan bob is-grŵp</i>	

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020

### *Gweledigaeth:*

'Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymdrechu i alluogi pob plentyn ac unigolyn ifanc i fod yn siaradwyr dwyieithog hyderus drwy ei ddarpariaeth addysg, a gallu byw, gweithio a chymdeithasu yn gyfforddus drwy gyfrwng y Gymraeg'

### *Amcanion:*

- Darparu gwybodaeth a dealltwriaeth lawn i rieni, plant a phobl ifanc o'r manteision o fod yn ddwyieithog;
- Galluogi plant a phobl ifanc i allu defnyddio'r Gymraeg fel iaith byw os dymunant ac i ddatblygu hyder i fod yn ddwyieithog yn eu bywydau o ddydd i ddydd;
- Cynyddu a rheoli nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig presennol a sicrhau cynllunio ar gyfer y dyfodol i gynyddu capasiti ar gyfer 401 lle cyfrwng Cymraeg ychwanegol;
- Gwella'r ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn codi safonau iaith Gymraeg yn sylweddol a hyrwyddo dwyieithrwydd a gweithio gyda phob ysgol i addysgu Cymraeg fel un iaith er mwyn creu continwm i wella dilyniant a chodi safonau;
- Gweithio gyda'r holl ysgolion a chanolfannau i ddatblygu rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus, sy'n cefnogi ymarferwyr i allu cyflawni amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn ogystal â chynyddu nifer yr ymarferwyr o fewn y sector cyfrwng Cymraeg.

### *Datganiad:*

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ymrwymo i gefnogi, ehangu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Trwy'r cylch hwn o CSCA (2017-2020) byddwn yn ymdrechu i weithredu 29 o bwyntiau gweithredu newydd ac yn anelu at gynyddu capasiti gyda 401 o leoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn cael eu datblygu ar draws lledaeniad y cyfnodau cynradd ac uwchradd er mwyn datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a byddwn yn anelu i ddarparu llwybr clir i bob dysgwyr allu datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn iddynt fod yn ddinasyddion a gweithwyr y dyfodol dwyieithog. Mae'r strategaeth uchelgeisiol hon, sy'n cael ei lledaenu ar draws y saith maes penodol o ddatblygiad neu 'Deilliannau' sy'n ffurfio'r CSCA cyfan yn dangos ein bod wedi ymrwymo i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y gymuned gyfan, gan gynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru o ddatblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog ac mae ein huchelgeisiau a chynlluniau yn cefnogi gweledigaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r CSCA hefyd yn cefnogi'r nodau a'r amcanion o fewn Strategaeth Iaith Gymraeg Wrecsam (2016). Mae Bwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cymeradwyo'r drafft CSCA ar gyfer yr ymgynghoriad statudol, fodd bynnag, oherwydd amseriad yr etholiadau lleol mae'r drafft diweddaraf wedi cael ei gymeradwyo drwy bwerau dirprwyedig. Bydd fersiwn derfynol y CSCA yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol i'w gymeradwyo yn dilyn unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru.

Dros y tair blynedd nesaf, Gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw cynyddu niferoedd mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrraedd capasiti presennol, ac ar yr un pryd sicrhau bod cynllunio'n cael ei wneud ar gyfer y dyfodol i ymateb i unrhyw gynnydd mewn niferoedd sydd am gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd y Cynllun Strategol hwn yn darparu cyfeiriad strategol trosfwaol dros y tair blynedd nesaf (2017-2020) ynghylch sut y bydd addysg cyfrwng Cymraeg a siaradwyr dwyieithog yn cael eu datblygu o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam trwy ei ddarpariaeth addysg. Bydd cynllun gweithredu blynyddol manwl yn cael ei baratoi gan bob un o dri is-grŵp y Fforwm, yn cael ei gefnogi a'i gydlynu gan yr ALI, yn cwmpasu pwyntiau gweithredu'r CSCA ac yn cael y dasg o ddatblygu, gweithredu, monitro ac adolygu pob cynllun gweithredu, ei dargedau a pherfformiad. Bydd gan y Fforwm CSCA drosolwg strategol o'r cynlluniau gweithredu a gweithrediad ac adolygiad o'r CSCA. Mae crynodeb o'r 29 pwynt gweithredu uchelgeisiol newydd a'r 11 o gamau gweithredu parhaus, sy'n cael eu hamlygu yn unigol ac yn cael eu tanlinellu o dan bob Deiliant yn y ddogfen, i'w gweld ar ddiwedd y Cynllun Strategol hwn ar dudalennau 22 - 24. Bydd y pwyntiau gweithredu hyn yn eu tro yn ffurfio'r penawdau blaenoriaeth ar gyfer pob cynllun gweithredu blynyddol a fydd yn cael eu datblygu gan bob un o is-grwpiau Fforwm CSCA, gweler enghreifftiau yn Atodiad 2. Rhagwelir y bydd y cynlluniau gweithredu yn llwyr weithredol cyn diwedd Rhagfyr 2017.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ymrwymo i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a byddwn yn eu hymgorffori yn y cynllun drwy weithio mewn partneriaeth ac atebolrwydd budd-ddeiliaid drwy'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg. Mae aelodaeth y fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ALI (Cynghorwyr - Aelodau Arweiniol, Uwch Swyddogion, Effeithiolrwydd Addysg,

Mynediad a lleoedd ysgol, Cynhwysiant, Gofal Plant, Strategaeth Cymru, Cyllid, 14-19, Tîm Ymgynghorol y Gymraeg), cynrychiolydd cynradd cyfrwng Cymraeg, cynrychiolydd uwchradd cyfrwng Cymraeg, cynrychiolydd Ffederasiwn cynradd, cynrychiolydd cynradd cyfrwng Saesneg, cynrychiolydd uwchradd cyfrwng Saesneg, Coleg Cambria, Prifysgol Glyndŵr, cynrychiolydd llywodraethwyr, Mudiad Meithrin, yr Urdd, Menter Iaith a RhAG. Bydd adolygiad o'r aelodaeth yn cael ei gynnal unwaith y bydd y canllawiau cyfansoddiad ar gyfer Fforymau wedi cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Bydd canlyniadau a strategaethau o fewn y CSCA yn ymgorffori ac yn ystyried y blaenoriaethau fel a ganlyn:

*Ail-greu'r Dyfodol* - Canran cyfartalog 3 blynedd disgyblion Wrecsam o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 17.59% (19.17% yw Cymru). Mae un LSOA wedi'i osod yn y deg ardal mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safle 3) a 43.5% o LSOAau yn y 50% mwyaf difreintiedig (cyfartaledd Cymru 10%). Drwy gynllunio strategol yn ei CSCA, nod CBSW yw codi cyrhaeddiad, ennyn dyheadau uchel a chodi disgwyliadau ymhlith ei ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig i fanteision cymdeithasol ac economaidd o siarad a defnyddio'r iaith Gymraeg ac i fod yn ddwyieithog a sicrhau eu bod yn bodloni'r disgwyliadau hynny drwy gael mynediad at y dysgu a'r addysgu o'r safon uchaf.

*Dyfodol Llwyddiannus* - Bydd dull o gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rŵan ac yn y dyfodol yn ymdrechu i gefnogi ysgolion i ddatblygu hyfforddiant cynllunio a sgiliau cwricwlwm priodol er mwyn sicrhau ffocws o'r newydd wrth ddysgu Cymraeg mewn ysgolion. Bydd disgwyliad i ddysgwyr ennill cymhwysedd trafodaethol erbyn diwedd eu hastudiaethau.

*Cenedlaethau'r Dyfodol* - bydd Fforwm a chynllun y Gymraeg mewn Addysg yn Wrecsam yn dod â budd-ddeiliaid at ei gilydd ac yn eu cynnwys i wneud penderfyniadau sy'n cefnogi saith gôl lles y Ddeddf. Yn benodol, bydd y Fforwm yn sicrhau cynllunio a phartneriaethau hirdymor o ran sicrhau bod y ddarpariaeth addysg yn y Fwrdeistref yn ategu nodau cymdeithas fwy cyfartal sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau, a sicrhau cymdeithas gynaliadwy sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod iaith, treftadaeth a diwylliant Cymru o fewn ffiniau'r Fwrdeistref a chymunedau cyfagos.

2. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan Adran 10 o Fesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Awdurdod Lleol Wrecsam yn cyflawni'r ddyletswydd statudol ac yn cydymffurfio'n llwyr â'r Mesur Teithio Gan Ddysgwyr.

Isod mae'r ddolen i'r Polisi Trafnidiaeth cyhoeddedig

[http://www.wrexham.gov.uk/welsh/education\\_w/Transport\\_PolicyW.htm](http://www.wrexham.gov.uk/welsh/education_w/Transport_PolicyW.htm)

Isod mae'r ddolen i'r canllaw i rieni, mae Tudalen 64 yn cyfeirio at gludiant i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg

[http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/education/admissions/parents\\_guide.pdf](http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/education/admissions/parents_guide.pdf)

## Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r tabl isod yn dangos ein taith hyd yn hyn ac mae ein huchelgeisiau a thargedau sy'n ymwneud â: nifer y plant saith oed (dysgwyr Blwyddyn 3) a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg; y cynnydd yng nghanran y dysgwyr cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r garfan lawn a addysgir yn Wrecsam; a nifer y lleoedd cynradd sydd ar gael ar gyfer y garfan.

Data ar gyfer sefyllfa bresennol a'r blynyddoedd i ddod o CYBLD Ionawr 2017 o'r holl ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref. Data o CYBLD Ionawr 2010 - 2016 ar gyfer darpariaeth hanesyddol Bl 3.

	2009/2010	2010/2011	2011/2012	2012/2013	2013/2014	2014/2015	2015/2016	Sefyllfa bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020	2020/2021
<b>Nifer y plant 7 oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg</b>	132	130	168	178	188	192	191	<b>207</b>	216	249	219*	244**
<b>% wrth gymharu â charfan lawn o blant 7 oed a addysgir yn Wrecsam</b>	9.7%	9.1%	11.4%	11.8%	11.7%	12.1%	11.2%	<b>12.5%</b>	12.8%	14.5%	13.1%	15.7%
<b>Nifer y lleoedd cynradd ar gael i'r garfan cyfrwng Cymraeg</b>	179	179	179	179	210	213	227	<b>262</b>	262	285***	285	285

\* Gostyngiad yn y nifer o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn 2019 oherwydd niferoedd derbyn is ar gyfer pob dysgwr yn Wrecsam ar gyfer y flwyddyn honno. Bydd y ganran cyfrwng Cymraeg o ddysgwyr, fodd bynnag, yn uwch na'r sefyllfa bresennol ar gyfer 2017 a 2018.

\*\* Mae carfan cyfanswm is ar gyfer Wrecsam o'i gymharu â 2020, fodd bynnag, cynnydd yn y niferoedd yn y cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2020) a'r sefyllfa bresennol yn 2017. Bydd canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg fodd bynnag, yn sylweddol uwch na'r blynyddoedd blaenorol hyd yn oed er y bydd cyfanswm y garfan yn Wrecsam yn gostwng.

\*\*\* Yn cynnwys y lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol a gynlluniwyd yn ystod cylch y CSCA hwn (2017-2020).

### Amcanion:

- Parhau i gynnal, ond ymdrechu i wella'r gyfradd uchel o 98% o ddewisiadau cyntaf ar gyfer derbyniadau i addysg derbyn cyfrwng Cymraeg yn ystod cylch 2017-2020 a thu hwnt y CSCA;
- Parhau i dynnu sylw ac esbonio'r broses ceisiadau derbyn a sicrhau arweiniad i rieni yn amlygu'r angen i nodi dewisiadau 1af, 2il a 3ydd yn glir.
- Cynyddu niferoedd mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrraedd capasiti presennol, ac ar yr un pryd sicrhau bod cynllunio'n cael ei wneud ar gyfer y dyfodol i ymateb i unrhyw gynnydd mewn niferoedd sydd am gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu capasiti drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod cynradd gan +9% a chynyddu capasiti uwchradd gan +25% yn ystod cylch y CSCA hwn.

### Datganiad Ategol:

Mae gan Wrecsam ddau brif gategori ieithyddol ar gyfer ei ysgolion, cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg gydag un ysgol gynradd ddwy ffrwd.

Fel Awdurdod rydym wedi nodi twf cyson yn y galw ac ers 2008, bu twf o 51% yn y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn ysgolion i ddarparu ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dymuno mynychu a sicrhau bod digon o leodd.

Mae saith o ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd, un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ac un Ffederasiwn gyda dwy ffrwd yn y Fwrdeistref ar hyn o bryd.

Ysgol	Dangosydd Cymraeg	Cyfnod	Ysgol	Dangosydd Cymraeg	Cyfnod
Ysgol Min Y Ddol	Cyfrwng Cymraeg	Cynradd	Ysgol Plas Coch	Cyfrwng Cymraeg	Cynradd
Ysgol ID Hooson	Cyfrwng Cymraeg	Cynradd	Ysgol Bro Alun	Cyfrwng Cymraeg	Cynradd
Ysgol Llanarmon*	Cyfrwng Cymraeg	Cynradd	Ysgol Bryn Tabor	Cyfrwng Cymraeg	Cynradd
Ysgol Cynndelw*	Dwy ffrwd	Cynradd	Ysgol Bodhyfryd	Cyfrwng Cymraeg	Cynradd
Ysgol Morgan Llwyd	Cyfrwng Cymraeg	Uwchradd			

\*Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog

Mae'r gyfradd llwyddiant ar gyfer lleoedd ysgol dewis cyntaf ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan gyrraedd 98% yn 2016. Mae hyn yn dangos bod 98% o geisiadau wedi cyflawni'r ysgol dewis cyntaf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Gall unrhyw achosion o geisiadau na allant dderbyn eu dewis cyntaf gael eu priodoli i ffactorau gwahanol, gan gynnwys ceisiadau hwyr neu fater penodol yn ymwneud â chais unigolyn. Ymddrinir â'r achosion hyn yn uniongyrchol gyda'r unigolion, gydag ymgais i geisio datrys y mater, megis dyrannu eu hail ddewis os ydynt wedi ei nodi. Roedd digon o leoedd ar gael ym mis Medi 2016 ar gyfer y rhai hynny oedd wedi mynegi dewis am addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd dewis y rhieni wedyn yn penderfynu ar y dyraniad.

Wrth sefydlu rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif – Band A (2014-2019), mae'r Awdurdod Lleol wedi derbyn cytundeb gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio arbedion a nodwyd yn rhaglen gyfalaf 'Band A', er mwyn datblygu estyniad parhaol £1 miliwn yn Ysgol Plas Coch ac estyniad parhaol £1.3 miliwn yn Ysgol Morgan Llwyd. **Bydd gweithredu'r buddsoddiad cyfalaf yn sicrhau mwy o gapasiti yn y sector cyfrwng Cymraeg.** Mae Ysgol Plas Coch wedi cynyddu'n barhaol o 105 o leoedd.

Data CYBLD Ionawr 2017

Enw'r Ysgol	Dangosydd Cymraeg	Capasiti	Nifer Derbyniad au	Nifer ar y Gofrestr	Lleoedd dros ben	% gweddill
Ysgol Morgan Llwyd	CC	965	193	743	222	23.01%

Mae trafodaethau ar gyfer datblygu ystafelloedd dosbarth parhaol ychwanegol yn Ysgol Morgan Llwyd ar y gweill. **Yn ystod cylch y CSCA bydd y prosiect yn Ysgol Morgan Llwyd yn arwain at gynydd yn y capasiti o 240 lle newydd ychwanegol.**

Mae sylwadau pellach wedi eu gwneud yn ystod cyfnod cyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer Band B (2019 - 2024) rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer datblygiad ychwanegol 'cam 2' yn y cyfrwng Cymraeg.

Parheir i fonitro twf addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd yn ystod y CSCA.

**Bydd angen ystyried cynllunio darpariaeth uwchradd yn y cylch CSCA nesaf yn unol â rhaglen ysgolion y 21 Ganrif Llywodraeth Cymru (2019 – 2024).**

Mae lledaeniad daearyddol ein canlyniadau ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn saith ysgol gynradd ac un ysgol dwy ffrwd yn cael eu lleoli ar draws y Fwrdeistref yn amrywio o fewn canol y dref i bentrefi allanol a'r ardal mwy gwledig. Mae'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Ysgol Morgan Llwyd wedi ei lleoli ger canol y dref. Mae'r ALI yn deall ac yn cydnabod bod yna rieni a fyddai'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu llawer agosach i'w cartref a hefyd yn cydnabod y byddai'n well gan rieni eraill ddewis darpariaeth sy'n agosach at eu man gwaith neu'n agosach at aelodau o'r teulu. Mae cynllunio darpariaeth gyfredol ac ar gyfer y dyfodol yn ystyried y gwaith o fonitro'r galw yn ogystal â galluogi cynnydd yn nifer y mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg i gyrraedd capasiti presennol yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, yn 2016, bu i 98% o geisiadau gyflawni eu hysgol dewis cyntaf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a oedd yn gynydd ar 97% a gyflawnwyd yn 2015. Fel y nodwyd yn ddiweddarach yn y Cynllun Strategol mewn ymateb i niferoedd cynyddol mae'r ALI yn anelu i gynyddu capasiti gyda 401 o leoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn cael eu datblygu ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd er mwyn datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach.

Mae'r ALI wedi bod yn rhagweithiol wrth ymateb i alw cynyddol fel yr amlygwyd gan y cynnydd parhaus yn y gyfradd uchel iawn o ddewisiadau dewis cyntaf sy'n cael eu cwblhau, yn ogystal â gwneud y newidiadau i'r rhaglen buddsoddi cyfalaf o fewn y Band A presennol, ac felly yn ymateb i gynyddu capasiti. Mae ychwanegu 401 o leoedd i'r capasiti presennol yn y ddarpariaeth yn ystod cylch y CSCA hwn (2017-2020) yn parhau'r duedd hon. Bydd yr ALI hefyd yn parhau i gynllunio tuag at y Rhaglen Band B, gyda chydweithrediad parhaus a phartneriaeth rhwng yr Adrannau Cynllunio, Iechyd ac Addysg a rhannu gwybodaeth mewn perthynas ag ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a allai godi mewn perthynas â datblygiadau economaidd mawr o fewn y Fwrdeistref gan gynnwys trywydd tai. Mae gan yr Adran Addysg rôl, mewnbyn a chyfraniad uniongyrchol yn natblygiad Cynllun Datblygu Lleol yr ALI (CDLI). Mae angen trafodaeth a mewnbwn gan yr Adran Addysg ynglŷn ag unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau economaidd-gymdeithasol mawr fel datblygiadau tai ar raddfa fawr. Drwy'r bartneriaeth drawsadrannol hon mae'n bosibl gweld a oes angen cyllid Adran 106 yn ogystal â'r niferoedd disgyblion tebygol a grëir gan ddatblygiadau yn y dyfodol fel y gall yr ALI gynllunio unrhyw ddarpariaeth addysg yn y dyfodol, gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y mater o ddatblygu darpariaeth newydd, megis darparu ysgol gyfan newydd, yn ymarfer cymhleth iawn sydd angen bodloni gofynion penodol a nodir gan Lywodraeth Cymru. Ni all unrhyw ddatblygiad newydd a gynigir gael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru oni

bai fod digon o dystiolaeth i gefnogi'r achos dros newid. Gall atebion amgen gael eu hymchwilio fel dull i oresgyn hyn. O dan y ddarpariaeth bresennol, mae digon o allu ac o ganlyniad nid ydynt yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, **byddwn yn sicrhau bod cynllunio yn y dyfodol i ymateb i unrhyw gynnydd mewn niferoedd derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.** Eglurir hyn ymhellach yn yr adran Amcanestyniadau a Thuedd.

Bydd pob band ariannu yn y dyfodol yn cynnwys ymateb i adolygiad o'n gofynion cyffredinol, ond bydd yn cynnwys ffocws penodol ar ardaloedd unigol y Sir. O fewn hyn, bydd ystyriaeth o'n darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'n darpariaeth sy'n seiliedig ar ffydd.

Mae'r hyn mae'r ALI wedi eu nodi ar gyfer y Band B newydd (2019 – 2024) o raglen ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnwys prosiectau sy'n cefnogi'r cynnydd yn y galw am addysg Gymraeg, ac ehangu cyfleoedd mynediad drwy sicrhau gwell dosbarthiad daearyddol sy'n cynnwys, edrych ar ddatblygu un ddarpariaeth gynradd o fewn y Fwrdeistref, adolygiad darpariaeth Uwchradd lawn er mwyn ystyried ymhellach sut fyddai orau o ran defnyddio lleoedd dros ben mewn nifer o ysgolion cyfrwng Saesneg ac ymdrin â'r galw cynyddol am addysg Gymraeg, a chynnig yn Ysgol I D Hooson i osod adeiladau newydd yn lle'r adeiladau dros dro gydag estyniad addas i'r pwrpas ar gyfer y dosbarth, tra'n sicrhau fod y gofodau lle nad yw dysgu'n digwydd ynddynt hefyd yn ddigonol i gwrdd ag anghenion ysgol 315 gyda 45 gofod meithrin.

Mae poblogaeth sylfaenol gynyddol yn Wrecsam, cyfran sy'n tyfu'n raddol y bydd angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Wrth fynd i'r afael â'r mater hwn, mae nifer y lleoedd ychwanegol a ddarperir yn y sector cyfrwng Cymraeg ers 2008 yn llawer uwch na'r ffigurau ar gyfer y sector Saesneg. Cafodd ein prosiect yn Ysgol Bro Alun ei ddwyn ymlaen i fynd i'r afael â'r galw y bu i ni ei fodloni drwy ddarparu lleoedd dros dro yn Ysgol Plas Coch. Mae'r lleoedd dros dro hyn bellach wedi'u gwneud yn barhaol drwy gynyddu capasiti o 105 o leoedd.

Mae nifer cyffredinol y lleoedd a gynigir ar gyfer dosbarthiadau derbyn a meithrin wedi tyfu o 1683 i 1847 rhwng 2008 a mis Medi 2015. Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd o 9.75%, mae cynnydd cyfatebol y ddarpariaeth o fewn y clwstwr Morgan Llwyd wedi bod yn 51%, gan gynyddu o 162 o leoedd i 245.

Ar hyn o bryd, mae gan yr ALI 7 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fel y nodir isod:

Data CYBLD Ionawr 2017

Enw'r Ysgol	**Capasiti	Nifer derbyn	Nifer ar y gofrestr	Lleoedd dros ben	**% dros ben	Grŵp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol							
						Mei	Der	1	2	3	4	5	6
Bodhyfryd	420	60	348	72	17.14%	53	54	58	55	49	41	49	42
Bryn Tabor	315	45	230	85	26.98%	45	34	41	32	29	32	33	29
Hooson	315	45	272	43	13.65%	45	29	44	43	42	37	43	34
Min Y Ddol	140	20	85	55	39.28%	16	19	21	5	14	7	9	10
Plas Coch	315	45	315	0	0.00%*	44	43	41	39	34	57	48	53
Bro Alun	210	30	119	91	43.33%	30	29	30	30	30	0	0	0
Llanarmon	49	7	20	29	59.18%	2	2	4	3	2	4	4	1

<b>7</b>	<b>1764</b>	<b>252</b>	<b>1389</b>	<b>375</b>	<b>21.26%***</b>	<b>235</b>	<b>210</b>	<b>239</b>	<b>207</b>	<b>200</b>	<b>178</b>	<b>186</b>	<b>169</b>
----------	-------------	------------	-------------	------------	------------------	------------	------------	------------	------------	------------	------------	------------	------------

\* Gordanysgrifio oherwydd blynyddoedd olaf carfannau mawr CA2 cyn Bro Alun

\*\* Capasiti a % dros ben yn eithrio Meithrin gan nad yw'n addysg orfodol.

\*\*\*Bob blwyddyn, mae Ysgol Bro Alun yn llenwi ei chpasiti ac felly os yw Ysgol Bro Alun am gael ei hystyried ar gapasiti gyda'r grwpiau blwyddyn a addysgir yno, y gwagedd cyfrwng Cymraeg cyffredinol o fewn y sir fyddai **16.10%**, sydd yn uwch na'r argymhelliad o 10%.

Ers ei hagar, mae Ysgol Bro Alun yn cael ei llenwi o flwyddyn i flwyddyn o'r Cyfnod Sylfaen. Dangosir data Ysgol Bro Alun gan eithrio Blynyddoedd 4, 5 a 6 isod.

Enw'r Ysgol	**Capasiti	Nifer derbyn	Nifer ar y gofrestr	Lleoedd dros ben	**% dros ben	Grŵp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol							
						Mei	Der	1	2	3	4	5	6
Bro Alun	210	30	119	1	0.5%*	30	29	30	30	30	0	0	0

\*% dros ben yn seiliedig ar ddata dosbarth Derbyn, Bl 1, 2 a 3 yn unig.

Os yw Ysgol Bro Alun am gael ei hystyried ar gapasiti gyda'r grwpiau blwyddyn a addysgir yno, y gwarged cyfrwng Cymraeg cyffredinol o fewn y sir fyddai **16.10%**, sydd yn uwch na'r argymhellad o 10%.

Nid oes unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd o fewn trothwy capasiti ysgol gyfan o 10% ar hyn o bryd.

Mae dau ffederasiwn o fewn cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys Ysgol Plas Coch ac Ysgol Bro Alun a Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog. Er bod yr ALI yn annog mwy o fynediad, ni all warantu y bydd y ddarpariaeth gofal plant ac addysg o fewn cymuned plentyn. Bydd dewis y rhieni hefyd yn pennu lle bydd dysgwyr yn cael lle. Lle mae'r galw am wasanaethau o'r fath ar gyfer tua 14% o'r ddarpariaeth gyffredinol, mae'n rhaid cael gwasgariad daearyddol ehangach o leoedd sydd ar gael. Y dewis arall fyddai cynnig nifer uwch o ysgolion a lleoliadau gofal plant llai effeithlon ac anghynladwy.

Mae'r ALI yn ymwybodol bod y capasiti dros ben yng nghyfnod CA2 mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn bennaf. Mae'n ymddangos bod gan Ysgol Bro Alun leoedd dros ben, o ganlyniad i'r ysgol yn cael ei llenwi o flwyddyn i flwyddyn o'r cofnod Cyfnod Sylfaen. Bob blwyddyn, mae'r ysgol yn llenwi ei chapasiti ac felly os yw Ysgol Bro Alun am gael ei hystyried ar gapasiti gyda'r grwpiau blwyddyn a addysgir yno, y gwarged cyfrwng Cymraeg cyffredinol o fewn y sir fyddai **16.10%**, sydd yn uwch na'r argymhellad o 10%.

Mewn ymateb i'r galw ac i ymrwymo ymhellach i ddatblygu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg, yn ystod cylch y CSCA **bydd yr ALI yn edrych i ddatblygu un ddarpariaeth newydd yn y Fwrdeistref a fydd yn darparu capasiti ysgol gyfan ychwanegol cychwynnol o 105 o leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gyda golwg o symud i gapasiti ysgol gyfan o 210 a darpariaeth gofod meithrin o 30, yn ddibynnol ar ymgynghoriad.**

O fewn yr awdurdod mae gennym hefyd ysgol ddwy ffrwd yn Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog. Oherwydd y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a'r lleihad yn y galw am addysg cyfrwng Saesneg, **byddwn yn edrych i ymgynghori ar newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw o'r flwyddyn academaidd nesaf. Bydd hyn yn ychwanegu at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yr ALI ac yn creu capasiti ysgol gyfan o 56 lle.**

Data o: CYBLD Ionawr 2017

Enw'r Ysgol	Dangosydd Cymraeg	*Capasiti	Nifer Derbyniadau	Nifer ar y Gofrestr	Lleoedd Dros Ben	*% Lleoedd Dros Ben	Grŵp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol							
							Mei	Der	1	2	3	4	5	6
Ysgol Cynddelw	Cyfrwng Cym	126	18	53	40	31.74%	9	9	10	9	7	8	6	5
	Cyfrwng Saes			33			3	0	0	8	2	10	11	2
		<b>126</b>	<b>18</b>	<b>86</b>	<b>40</b>	<b>31.74%</b>	<b>12</b>	<b>9</b>	<b>10</b>	<b>17</b>	<b>9</b>	<b>18</b>	<b>17</b>	<b>7</b>

\*Capasiti a % dros ben yn eithrio Meithrin gan nad yw'n addysg orfodol.

Mae rheoliadau mynediad yn datgan bod yn rhaid i Awdurdodau Derbyn roi sylw i ddewis rhieni. Mae'r Cod Derbyn yn gwneud y ddarpariaeth ganlyniol:-

**“Rhaid i awdurdodau derbyn wneud trefniadau sy'n galluogi rhieni plant yn eu hardal ac, yn achos derbyn i'r chweched dosbarth, pobl ifanc, i fynegi dewis am ysgol ac i roi rhesymau dros y dewis. Pan fo rhiant neu unigolyn ifanc yn mynegi dewis yn ôl y trefniadau hynny, rhaid i ALIau a chyrff llywodraethu gydymffurfio â'r dewis hwnnw, yn amodol ar yr eithriadau a nodir yn Neddf 1998. Gellir crynhoi'r rhain fel:**

Lle byddai cydymffurfio â'r dewis yn amharu ar ddarparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau (gan gynnwys rhagfarn a allai godi yn sgil camau perthnasol sydd angen eu cymryd i sicrhau cydymffurfio â'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod).

Er mwyn darparu ar gyfer disgyblion ychwanegol, mae'r Awdurdod lleol yn dadlau y byddai angen y mesurau canlynol ar ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n fwy poblogaidd ar hyn o bryd:-

- (a) Estyniad i'r adeilad er mwyn darparu ar gyfer disgyblion ychwanegol, er mwyn sicrhau bod digon o le yn yr ysgol i ganiatáu iddynt gwblhau eu haddysg hyd at flwyddyn 6.
- (b) Byddai'n ofynnol i'r ysgol benodi staff addysgu a chynorthwyl ychwanegol.

Nid yw'r un o'r mesurau hyn yn cael eu hystyried i wneud defnydd effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael i'r ALI, yn enwedig gan ein bod yn gallu cynnig llefydd amgen mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill. Rhaid i'r

*Awdurdod Lleol hefyd ystyried effaith caniatáu i ysgol i gael ei gordanysgrifio ar ei ysgolion eraill a fyddai fel arall yn derbyn y disgyblion hyn. Mewn amgylchiadau eithafol gallai hyn arwain at gau ysgolion.*

*Ystyriaeth arall hanfodol yw'r broses gynllunio. Pe baem yn rhoi disgyblion ychwanegol yn yr ysgol, sy'n golygu estyniad yn y dyfodol, byddai'n anodd dadlau bod y Cyngor yn gweithredu yn yr ysbryd, os nad y gyfraith, mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.*

Taliadau Adran 106 - Cyfraniadau Datblygwr

Isod ceir y ddolen i'r cytundeb presennol fel y'i cymhwyswyd gan gynllunio, fe'i ystyrir ar sail datblygiad wrth ddatblygiad.

<http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/planning/lpg/guide27w.pdf>

Er na chaiff cyfrwng Cymraeg ei nodi'n benodol, pan gaiff ei gymhwyso i ddatblygiadau newydd, mae'r ALI yn ymwybodol bod tua 15% o leoedd a gynhyrchir ar gyfer disgyblion yn debygol o fynegi dewis am addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir, ac felly ystyrir bod 15% o'r holl gyfraniadau ar gael ar gyfer datblygu darpariaeth ychwanegol yn ôl yr angen.

*Gyda chymorth cyfraniadau datblygwyr, rydym wedi cynyddu Nifer Derbyn a gynlluniwyd (PAN) yn Ysgol Bodhyfryd o 49 i 60. Mae hyn yn caniatáu i'r ysgol drefnu ei charfannau yn ddau ddsbarth cyfocrog o 30 tra'n cynorthwyo'r ALI wrth fodloni'r galw am leoedd cynyddol. Maent hefyd wedi caniatáu cynnydd o 14 i 20 yn Ysgol Min y Ddôl.*

Lleoedd Gofal Plant

Mae cyfanswm o 1025 lle gofal ar gael yn Wrecsam trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn gynydd o'r Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2014 o 616 lle sydd ar gael yn y Gymraeg. Er hynny, mae yna 10.9% o leoedd gofal plant sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae hyn wedi'i osod yn erbyn poblogaeth sy'n siarad Cymraeg o tua 13% o holl drigolion Wrecsam (Cyfrifiad 2011), a all awgrymu galw ychwanegol ar gyfer mwy o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd neu rannau o Wrecsam.

Mae'r gyfran fwyaf o ofal plant dan oed ysgol cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael ei gyflwyno gan Gylchoedd Meithrin, sy'n darparu gofal amgylchynol a sesiynol. Mae nifer fechan o ofalwyr plant yn darparu eu gwasanaethau yn ddwyieithog, ond nid yw'r un o'r gofalwyr plant yn Wrecsam yn darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Gallai cynyddu recriwtio gwarchodwyr plant drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn opsiwn hyfyw a chynaliadwy i lenwi'r bylchau lle mae galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd o Wrecsam gyda phocedi o alw gan rieni.

Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i leoli yn wardiau Grosvenor, Hermitage a Phonciau ond mae hefyd ar gael ym Mryn Cefn, Brynyffynnon, Cefn, Dyffryn Ceiriog, Coedpoeth, Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, Minera, Pant, Penycae a Rhosnesni.

Mae datblygiadau sylweddol gan Mudiad Meithrin dros y blynyddoedd diweddar wedi cryfhau darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol. Mae gan bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg nawr Meithrin Mwy ar y safle yn darparu gofal cofleidiol i'r plant hynny sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn yr ysgol. Mae yna 4 Darparwr Dechrau'n Deg a 6 darparwr Addysg Gynnar. Mae'r mwyafrif o'r cylchoedd Meithrin yn derbyn plant o 2 oed. Mae gofal dydd llawn ar gael mewn 3 o'r lleoliadau gydag un lleoliad hefyd yn darparu clwb brechwast. Yn ogystal â'r cylchoedd Meithrin mae yna 10 cylch Ti a Fi yn yr ardal.

CYLCH	MEITHRIN MWY	CYLCH	ADDYSG GYNNAR	FLYING START	GOFAL DYDD LLAWN AR GAEL	CLWB BRECWAST
Hill Street		x	x			
Maes y Gornel		x	x			
Hooson	x					
Plas Coch	x					
Bro Alun	x	x	x	x	x	x
Pant				x		



Summerhill		x	x	x	X (3 diwrnod)	
Glyn Ceiriog	x	x	x			
Dechrau'n Deg Bodhyfryd				x		
Bodhyfryd	x	x				
Min Y Ddol	x	x	x	x	x	

Mae materion capasiti posibl yn cael eu monitro'n agos gyda Mudiad Meithrin a thrafodir unrhyw faterion. Mae unrhyw atebion posibl hefyd yn cael eu trafod. Mae'r galw gan rieni yn cael ei fesur mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Roedd ymatebion i'r arolwg rhieni yn eithaf gwael eleni, fodd bynnag o'r 103 o bobl a ymatebodd nad oeddent yn defnyddio gofal plant 3 yn unig ddywedodd nad oedd yna ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg addas. Bydd cynllunio darpariaeth yn parhau i fonitro'r galw.

Mae gan bob ysgol cyfrwng Cymraeg ofal cofleidiol cyfrwng Cymraeg (Meithrin Mwy) a darpariaeth gofal plant allan o'r ysgol sy'n datblygu. Bydd y cynnig gofal plant i Gymru angen i lawer o'r lleoliadau newid eu model darparu, a bydd yr ALI yn mapio'r capasiti ar gyfer darparu'r fenter hon yn ystod y misoedd nesaf. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth Meithrinfa Ddydd cyfrwng Cymraeg o fewn y Fwrdeistref Sirol ac mae'n bwynt gweithredu o fewn y cynllun gweithredu Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant i archwilio'r galw am y cyfryw.

Mae'r gwasanaeth Gofal Plant o fewn yr awdurdod yn dod o fewn Gofal Cymdeithasol Plant ac maent yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr Addysg i ddatblygu a chynnal y sector gofal plant gan eu bod wedi eu cysylltu'n agos. Mae gan EYDCP Wrecsam draws-doriad da o gynrychiolwyr partneriaid ac mae'n cyfarfod bob yn ail fis i fonitro'r farchnad a chyflenwi'r cynllun gweithredu Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Mae'r niferoedd a chanran trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn gadarnhaol ac yn galonogol iawn ac yn cefnogi'r duedd cynyddol yn nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol dros y blynyddoedd diwethaf.

Enw/Name	2015-16		Nodiadau/Comments
	Nifer yn troslwyddo i addysg Gymraeg/ Numbers transferring to WM Education	% Trosglwyddo i addysg Gymraeg/ % transferring to WM Education	
Bodhyfryd	21	95.45%	
Bryncabanau (yb/am)	21	95.45%	
Bryncabanau (yp/pm) (Meithrin Plus)	40	100.00%	
Coedpoeth (yb)	17	100.00%	
Coedpoeth (yp)	21	100.00%	
Dechrau'n Deg Bodhyfryd	7	100.00%	
Dechrau'n Deg Min y Ddol			Dechrau'n Deg Min y Ddol + Min y Ddol wedi uno/ unified
Dechrau'n Deg Pant	4	50.00%	Cychwyn Gorau yn cael dylanwad/ Cychwyn Gorau having an impact
Glyn Ceiriog	10	100.00%	Dylanwad Cychwyn Gorau o Ti a Fi/ Impact of Cychwyn Gorau from Ti a Fi
Hill Street	10	100.00%	
I D Hooson	22	100.00%	
Maes y Gornel	30	100.00%	
Meithrin Mwy Bro Alun	37	90.24%	
Min y Ddol (yb/am)	16	100.00%	
Plas Coch (Meithrin Mwy)	33	100.00%	
Summerhill	7	77.78%	

\* Data 2015-16 yw'r data diweddaraf gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC). Bydd y data 2016-17 yn cael ei gyhoeddi gan LIC ym mis Tachwedd 2017.

#### Amcanestyniadau a Thuedd

Mae'r ALI wedi gweithredu arolwg ar-lein parhaus o ddewisiadau rhieni am natur ieithyddol darpariaeth gofal plant ac addysg ac wedi gwneud hynny ers 2013. Mae hyn yn cyd-fynd i sicrhau bod y cwestiynau priodol yn cael eu gofyn fel y nodir yn rheoliadau CSCA. Caiff yr arolwg hwn gyhoeddu'rwydd mewn nifer o ffyrdd sy'n targedu rhieni babanod newydd anedig, megis y wasg leol, ar ddarpariaeth trafniadaeth, Canolfannau Iechyd, Ysbytai, ysgolion ac yn y Swyddfa Gofrestru a Genedigaeth.

Rydym yn derbyn bod cyfyngiadau i arolygon o'r fath, yn enwedig pan ddaw i ddehongli'r ystadegau y maent yn eu cynhyrchu. Er enghraifft, mae'n fwy tebygol i riant sy'n gofyn am addysg cyfrwng Cymraeg ymateb i arolygon o'r fath. Rydym hefyd yn edrych yn fanwl ar ein twf a'n newid demograffig ac yn monitro'r galw am bob un o'n hysgolion yn agos.

Nid ydym ar hyn o bryd yn gweithio gydag awdurdodau eraill i asesu angen, fodd bynnag, oes gennym berthnasoedd gwaith cryf ac yn rhannu data derbyniadau yn rheolaidd, gan eistedd ar Fforymau Derbyn ein hawdurdodau cyfagos.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid a budd-ddeiliaid i fesur y galw a byddwn yn edrych ar ac ymchwilio i opsiynau posibl ar gyfer cryfhau'r broses hon.

Mae cynllun newydd Llywodraeth Cymru 'Cymraeg i Blant', a fydd yn cael ei reoli'n lleol gan y Mudiad Meithrin, hefyd yn gyfle i roi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i rieni yn ystod y camau cyn-geni a chyn-meithrinfa. Esbonnir y cynllun hwn yn fanylach yn nes ymlaen yn y Cynllun Strategol dan Ddeiliant 2.

Mae Menter Iaith Maelor, gyda chymorth gan Mudiad Meithrin, wedi cynhyrchu llyfryn gwybodaeth ac arweiniad i rieni i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Mae llyfryn Menter Iaith Maelor 'Addysg Cymraeg: y gorau o ddau fyd profiadau rhieni lleol' yn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth ac astudiaethau achos o brofiadau cadarnhaol rhieni o addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd is-grŵp 'Darpariaeth' y Fforwm CSCA hefyd yn nodi dulliau priodol i hyrwyddo ac amlygu manteision darpariaeth cyfrwng Cymraeg i rieni ymhellach. Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol yr is-grwpiau yn nodi strategaethau i ddatblygu a gweithredu blaenoriaethau penodol. Mae enghreifftiau o'r cynlluniau gweithredu hyn i'w gweld yn Atodiad 2.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i fonitro'r galw drwy ei arolwg dewis rhieni, yn ogystal â dadansoddi agos derbyniadau gwirioneddol ceisiadau a **bydd yn parhau i sicrhau ei fod yn darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg i bawb sydd am gael hynny.** Lle bydd cyllid yn caniatáu, bydd yr ALI yn ceisio ychwanegu mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn gwella dosbarthiad lleoedd ysgol a darparu mwy o ddewis i rieni.

**Dylai gweithredu'r prosiectau sydd wedi cael eu nodi i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cylch CSCA (2017-2020) ymhellach arwain at gynydd yn y capasiti o 401 o leoedd ychwanegol yn cael eu datblygu wedi eu lleadaenu ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd.**

Byddai hyn yn +9% o gynydd mewn capasiti yn y cyfnod cynradd a +25% o gynydd yn y capasiti yn y cyfnod uwchradd yn ystod cylch y CSCA hwn.

Dylid cydnabod, fodd bynnag, y bydd yr heriau sy'n wynebu recriwtio staff addysgu a chefnogi yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cynyddu o ganlyniad gydag unrhyw ddatblygiad mewn darpariaeth yn y dyfodol, felly bydd cynllunio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol angen mynd i'r afael â hyn, fel yr amlinellir yn nes ymlaen yn Neilliant 7.

Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd ag ymgynghoriad ar Strategaeth Trefniadaeth Ysgolion newydd a fydd yn rychwantu 2017-2022. Er nad yw hyn yn enwi ysgolion penodol mae'n rhoi trosolwg o'r sbardunau a fyddai'n cychwyn adolygiad mewn unrhyw glwstwr penodol neu sector ysgolion ac yn amlinellu'r defnydd o fodelau posibl i sut y gall y materion hyn gael eu datrys.

*Drwy fodloni'r galw cynyddol hwn, weithiau drwy ddarparu cyfleusterau dros dro, efallai y bydd angen gwneud yr achos gorau ar gyfer ariannu darpariaeth barhaol yn y dyfodol.*

## Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Mae'r tabl isod yn dangos ein taith hyd yn hyn ac mae ein huchelgeisiau a thargedau sy'n ymwneud â: nifer y dysgwyr blwyddyn naw a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg (Iaith Gyntaf); a'r cynnydd yng nghanran y dysgwyr cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r garfan lawn a addysgir yn Wrecsam.

Data sefyllfa bresennol a blynyddoedd y dyfodol o CYBLD Ionawr 2017. Data o CYBLD Ionawr 2010 – 2016 ar gyfer darpariaeth hanesyddol BI 9.

	2009/2010	2010/2011	2011/2012	2012/2013	2013/2014	2014/2015	2015/2016	Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
<b>Nifer y dysgwyr BI 9 a aseswyd yn y Gymraeg</b>	138	113	138	137	120	116	121	<b>118</b>	139	150	168
<b>% o'i gymharu â chyfanswm carfan dysgwyr BI9 yn Wrecsam</b>	10.8%	9.0%	11.1%	10.8%	9.5%	9.6%	10.9%	<b>10.5%</b>	11.8%	12%	13%*
<b>% duedd drosglwyddo disgyblion a fynychodd ysgol cyfrwng Cymraeg Wrecsam ym Mlwyddyn 6 a drosglwyddodd i mewn i cyfrwng Cymraeg uwchradd ac meant ym MI 9</b>				88.3%	85.8%	93.1%	90.8%	<b>90.7%</b>			

\* Cyfanswm y garfan o ddysgwyr BI 9 yn Wrecsam yn 2019/2020 yn seiliedig ar ddata BI 6 ac yn gallu newid pan fydd dysgwyr yn penderfynu ar eu darpariaeth uwchradd.

### Amcanion:

- Parhau i gynllunio darpariaeth a chefnogi twf cynyddol dysgwyr sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam dros gylch 2017-2020 a thu hwnt y CSCA;
- Cynyddu capasiti y cyfnod uwchradd gan +25% yn ystod cylch y CSCA hwn.
- Gwella'r gwaith o hyrwyddo'r rhaglen 'Trochi' mewn ysgolion a thynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd yn y Gymru fodern;
- Parhau i gydweithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau cyfradd pontio reolaidd o 95%, o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac ymdrechu i gynyddu'r gyfradd trosglwyddo ymhellach;
- Nodi ac ymateb i unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar y gyfradd drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg.

### Datganiad Ategol:

Mae twf dysgwyr sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam wedi bod yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda thwf o +51% yn y galw yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf (2008-2016). Mae'r gyfradd trosglwyddo rhwng y 7 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Morgan Llwyd, bron bob amser yn 95%. Mae manteision parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n dda yn yr ysgolion cynradd. Mae'r perfformiad trosglwyddo cryf hwn yn dyst i berthynas agos a'r cydweithio sydd wedi bod o fewn y clwstwr am flynyddoedd lawer. Mae trosglwyddo disgyblion cyfrwng Cymraeg o Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn datblygu'n dda ac mae'r berthynas sy'n cryfhau rhwng y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dyst i'r datblygiad hwn.

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn cynnal rhaglen 'Trochi' sy'n galluogi i tua 12 o ddisgyblion y flwyddyn o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg drwy sesiynau trochi dwys ym Mlwyddyn 7 ac 8. Mae'r rhaglen lwyddiannus yn caniatáu i'r ysgol gyflogi athro profiadol ymroddedig ac mae'n galluogi i ddisgyblion sydd ag ychydig neu ddim Cymraeg ym Mlwyddyn 6 fod yn gwbl rhugl erbyn Blwyddyn 9, a chael eu haddysgu yn y brif ffrwd, gan barhau i astudio TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy'r rhaglen Trochi dros y deng mlynedd diwethaf, amcangyfrifir bod tua 120 o ddisgyblion ychwanegol wedi cael eu haddysgu yn llwyddiannus trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam na fyddai wedi gwneud hynny fel arall. **Byddai gwella'r modd o hyrwyddo'r rhaglen 'Trochi' yn cyflawni cynnydd cyson o ddisgyblion sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3. Byddai angen cynllunio gofalus a dyrannu adnoddau ar gyfer cael unrhyw gynnydd mewn niferoedd.**

Mae unrhyw achosion o ddysgwyr sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn tueddu i fod oherwydd amgylchiadau unigol neu arbennig, megis teulu'n gadael yr ardal, rhiant (rhieni) yn symud i weithio i ardal arall neu os oes gan ddysgwr Anghenion

Dysgu ychwanegol difrifol penodol ac angen mynychu'r ysgol arbenigol, Ysgol St Christopher. Ar adegau prin, gall teulu benderfynu peidio â pharhau ag addysg cyfrwng Cymraeg a pharhau ag addysg cyfrwng Saesneg. Caiff trafodaethau ar gyfraddau trosglwyddo ac unrhyw faterion sy'n effeithio parhad addysg cyfrwng Cymraeg eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd clwstwr ac yn y Fforwm Derbyniadau a drefnir gan yr ALI gydag atebion a nodwyd i roi sylw i unrhyw faterion penodol.

Mae'r gyfradd trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4 yn 100% a chaiff pob dysgwr (100%) ei asesu mewn Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3. Bydd pob dysgwr (100%) hefyd yn astudio ac yn cael ei gofrestru ar gyfer y cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r ganran sy'n cyrraedd Lefel 5+ yng nghyfnod Allweddol 3 yn dda iawn, 97.5% ac yn gryf iawn hefyd ar y lefelau uwch, gyda 79% o'r holl ddysgwyr yn cyflawni Lefel 6 neu uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae 100% yn sefyll yr arholiad Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 4 ac mae'r canlyniadau yn gyson dda gyda 76.7% yn cyflawni A\* - C yn 2016.

Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr cyn-ysgol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae eu darpariaeth yn cynnwys grwpiau Ti a Fi, grwpiau Meithrin, a grwpiau Meithrin Mwy sydd wedi eu lleoli ar safleoedd ysgolion. Er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth mae Coleg Cambria hefyd yn cynnig gwersi Cymraeg i rieni ar nifer o safleoedd ysgolion. Mae'r cynnydd yn y galw am ddarpariaeth Mudiad Meithrin wedi bod yn amlwg yn Wrecsam dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda grwpiau meithrin newydd yn cael eu sefydlu. Mae Coleg Cambria a Mudiad Meithrin hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwersi Cymraeg a chyingor i rieni ar opsiynau cyfrwng Cymraeg. Mae'r ALI yn darparu cymorth ariannol ar gyfer darpariaeth Ti a Fi, ac mae Mudiad Meithrin hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer datblygu Ti a Fi am dro, a fydd yn galluogi i ardaloedd ychwanegol elwa ar y ddarpariaeth.

Mae 'Cymraeg i Blant' yn gynllun newydd gan Lywodraeth Cymru a reolir gan y Mudiad Meithrin. Prif nod y cynllun yw cynyddu nifer y plant oedran meithrin sy'n siarad Cymraeg. Caiff hyn ei gyflawni drwy rannu gwybodaeth a darparu cyngor a chefnogaeth i rieni ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg neu ofal plant, manteision o fod yn ddwyieithog a phwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg i blant yn gynnar. Bydd 'Cymraeg i Blant' hefyd yn gwau i mewn i waith ehangach Mudiad Meithrin i sicrhau lles ac addysg o'r crud i'r ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd gwaith 'Cymraeg i Blant', yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlynol yn ddyddiol:

- Grwpiau cyn-geni drwy gyfrwng y Gymraeg 'Cymraeg i Blant'
- Grwpiau tylino babanod 'Cymraeg i Blant' (10 wythnos +)
- Grwpiau ioga babanod 'Cymraeg i Blant' (10 wythnos +)
- Grwpiau Stori a Chân (oedran 0-3)

Bydd y grwpiau hyn, a fydd yn rhad ac am ddim, yn addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg, rhieni di Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mae 'Cymraeg i Blant' yn noddi 'Nodiadau Mamolaeth Cymru Gyfan', a'r llyfr cerdyn sgan 'Cofnod Iechyd Personol y Plentyn' sy'n cael ei gyflwyno i bob rhiant newydd yng Nghymru.

**Bydd gweithredu'r cynllun 'Cymraeg i Blant' yn hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog a darpariaeth cyfrwng Cymraeg i rieni.**

Mae'r ALI hefyd wedi cytuno i ariannu Swyddog Iaith i gynnal menter newydd Mudiad Meithrin yn y gogledd ddwyrain, Croesi'r Bont. Mae hwn yn gynllun sy'n anelu i ganolbwyntio ar bontio iaith effeithiol rhwng y grwpiau Meithrin a'r dosbarthiadau meithrin. Bydd datblygu cysondeb patrymau iaith yn sicrhau gwelliant mewn cyrhaeddiad dysgwyr pan fyddant yn gadael y grwpiau Meithrin. Bydd gwella patrymau iaith y dysgwyr yn eu cynorthwyo ar eu taith i addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn Wrecsam wedi datblygu'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gan bob un o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg grwpiau Meithrin Mwy wedi'u lleoli ar safleoedd ysgolion. Yn ogystal â'r grwpiau Meithrin mae 10 o grwpiau Ti a Fi yn yr awdurdod. **Bydd angen parhau i gyllido'r ddarpariaeth gan Mudiad Meithrin yn ystod cylch 2017-2020 y CSCA.**

Mae'r ALI wedi bod yn monitro dewisiadau rhieni am natur ieithyddol darpariaeth gofal plant ac addysg ac wedi gwneud hynny ers 2013. Caiff yr arolwg hwn gyhoeddu'rwydd mewn nifer o ffyrdd sy'n targedu rhieni babanod newydd anedig, megis y wasg leol, ar ddarpariaeth trafndiaeth, Canolfannau Iechyd, Ysbytai, ysgolion ac yn y Swyddfa Gofrestru a Genedigaeth. Mae gwybodaeth am y ddarpariaeth addysg hefyd yn cael ei ddosbarthu i rieni drwy'r pecynnau babi a roddir i rieni newydd.

Mae Menter Iaith Maelor, gyda chymorth gan Mudiad Meithrin, wedi cynhyrchu llyfryn gwybodaeth ac arweiniad i rieni i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Mae llyfryn Menter Iaith Maelor 'Addysg Cymraeg: y gorau o ddau fyd profiadau rhieni lleol' yn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth ac astudiaethau achos o brofiadau cadarnhaol rhieni o addysg cyfrwng Cymraeg.

Fel y crybwyllwyd yn gynharach o dan Amcanestyniadau a Thuedd yn Neilliant 1, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid a'n budd-ddeiliaid i fesur y galw a byddwn yn ymchwilio i'r opsiynau posibl ar gyfer cryfhau'r broses hon.

Mae pontio o ddarpariaeth cyn-ysgol i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn galonogol iawn, gyda dulliau pontio da o ddarpariaeth y Mudiad Meithrin. Er mwyn cynyddu pontio cyn-ysgol ymhellach, **mae angen archwilio'r opsiynau i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal ag archwilio, amlygu a hyrwyddo gwybodaeth am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach i gael gwared ar unrhyw bryderon sydd gan rieni cyn-ysgol.**

Mae perfformiad rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 mewn Cymraeg ail iaith wedi bod yn siomedig o gymharu â gweddill Cymru, ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu i helpu i wella perfformiad dysgwyr. Mae cynlluniau a strategaethau yn cael eu datblygu i ymateb i'r her hon fel y sonnir ymhellach yn Neilliant 5.

### Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn seiliedig ar waith.

Mae'r tabl isod yn dangos ein huchelgeisiau a'n targedau sy'n ymwneud â: chanran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg; nifer y dysgwyr; a'r cynnydd yn y ganran o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r garfan lawn a ddysgir yn Wrecsam.

Data CYBLD Ionawr 2017

	Sefyllfa bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020	2020/2021
% o ddysgwyr a aseswyd yn Gymraeg a hefyd yn astudio o leiaf 2 gymhwyster arall cyfrwng Cymraeg	100%	100%	100%	100%	100%
Nifer y dysgwyr a aseswyd yn Gymraeg a hefyd yn astudio o leiaf 2 gymhwyster cyfrwng Cymraeg arall	113	115	118	139	150
% o'i gymharu â chyfanswm y dysgwyr yn Wrecsam	9.7%	10.2%	10.5%	11.8%	12%

Mae'r tabl isod yn dangos ein huchelgeisiau a'n targedau sy'n ymwneud â: chanran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg; nifer y dysgwyr; a'r cynnydd yn y ganran o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r garfan lawn a ddysgir yn Wrecsam.

Data CYBLD Ionawr 2017

	Sefyllfa bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020	2020/2021
% o ddysgwyr a aseswyd yn Gymraeg a hefyd yn astudio o leiaf 5 cymhwyster arall cyfrwng Cymraeg	100%	100%	100%	100%	100%
Nifer y dysgwyr a aseswyd yn Gymraeg a hefyd yn astudio o leiaf 5 cymhwyster arall cyfrwng Cymraeg	113	115	118	139	150
% o'i gymharu â chyfanswm y nifer o ddysgwyr yn Wrecsam	9.7%	10.2%	10.5%	11.8%	12%

Amcanion:

- Sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam yn parhau i fodloni'r Mesur Dysgu a Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yng Nghyfnod Allweddol 5 ac yn defnyddio partneriaethau cydweithredol;

- Sicrhau cefnogaeth barhaus y Rhwydwaith 14-19 a'i adnoddau wrth gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- Sicrhau bod y cwricwlwm lleol yn caniatáu i ddysgwyr Wrecsam gael mynediad at gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg;
- Sicrhau bod dysgwyr Wrecsam yn parhau i gael mynediad llawn at addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16.

Datganiad Ategol:

Mae'r niferoedd sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam wedi bod yn sylweddol dros yr wyth mlynedd diwethaf, gyda thwf o + 51% yn y sector ers 2008. Mae'r gyfradd trosglwyddo gryf rhwng y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd a'r trosglwyddiad o 100% rhwng Cyfnod Allweddol 3 a 4 wedi arwain at niferoedd cynyddol rhwng 14 a 16 oed sy'n mynd i astudio ac yn parhau i astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Morgan Llwyd. Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r gyfradd cadw dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n parhau ag addysg ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol wedi bod yn 59%. Rhagwelir y bydd poblogaeth yr school yn parhau i dyfu dros y pum mlynedd nesaf, gyda rhagfynegiadau o tua 300 o ddisgyblion additional erbyn 2021. Fel y crybwyllwyd yn Neilliant 1, bydd cynnydd mewn capasiti o 240 o leoedd newydd ychwanegol yn cael eu datblygu yn yr ysgol yn ystod cylch y CSCA hwn mewn ymateb i'r cynnydd yn y niferoedd yn ogystal â monitro'r twf hwn er mwyn sicrhau bod cynllunio darpariaeth uwchradd yn y dyfodol yn cael ei ystyried yn y cylch CSCA nesaf yn unol â'r rhaglen ysgolion yr 21ain Garrif Llywodraeth Cymru (2019-2024).

Mae pob disgybl yn yr ysgol yn cael ei gofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac mae'r gyfradd lwyddo yn y pwnc o A\* - C yn dda ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Caiff 100% o ddysgwyr Blwyddyn 11 eu cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach lefel 1 neu lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda mwyafrif y disgyblion yn pasio pum cymhwyster lefel 2 neu fwy yn llwyddiannus drwy gyfrwng y Gymraeg ar raddau A\* - C, a 100% o ddysgwyr yn pasio pum cymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 neu fwy yn llwyddiannus drwy gyfrwng y Gymraeg ar raddau A\* - G.

Mae'r cwricwlwm lleol yn cael ei gynllunio'n ofalus gan gymryd i ystyriaeth gofynion lleol a chyfleoedd economaidd lleol a rhanbarthol. Mae gan ddysgwyr Ysgol Morgan Llwyd fynediad ar hyn o bryd i 36 o gyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 4, sy'n golygu bod yr ysgol yn bodloni Mesur 14-19 sy'n gofyn am leiafswm o 25 cwrs Cyfnod Allweddol 4.

Mae cyhoeddiadau diweddar am y penderfyniad cenedlaethol a gymerwyd gan Cymwysterau Cymru a CBAC i gael gwared ar argaeledd rhai cymwysterau TGAU L2 trwy gyfrwng y Gymraeg, ond i barhau gyda darpariaeth cyfrwng Saesneg yn peri pryder difrifol i fudd-ddeiliaid Fforwm CSCA. Mae'r penderfyniad cenedlaethol yn codi pryder am y mater o gydraddoldeb i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg gael mynediad i gyrsiau 14-19 trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru. Mae arwyddion hyd yn hyn yn awgrymu na fydd Cymwysterau Cymru yn sicrhau y bydd cymwysterau cyfrwng Cymraeg eraill ar gael yn eu lle i ysgolion neu ganolfannau eu darparu. Mae un o'r pynciau, Seicoleg, wedi cael ei sefydlu'n dda ac mae'r niferoedd yn dangos ei boblogrwydd yn Ysgol Morgan Llwyd. Mae'r penderfyniad i gael gwared ar y cymhwyster gan Cymwysterau Cymru a CBAC yn rhwystro'r llwybr dysgu posibl sydd ar gael i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam a chynllunio cwricwlwm o ddarparu cymhwyster perthnasol a fyddai'n bwydo i mewn i'r cyfleoedd economaidd dwyieithog sydd ar gael i ddysgwyr yn yr ardal leol fel y gwasanaethau sydd eu hangen o fewn carchar dwyieithog newydd CEM Berwyn. **Bydd budd-ddeiliaid yn y Fforwm a Rhwydwaith 14-19 Wrecsam angen amlygu'r pryderon ar lefel ranbarthol a chenedlaethol ynglŷn â chael gwared ar y cymwysterau L2 trwy gyfrwng y Gymraeg heb ystyriaeth ddyledus i ddarpariaeth amgen a chanlyniadau o ran cydraddoldeb argaeledd darpariaeth i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg.**

Yng Nghyfnod Allweddol 5 mae'r ysgol hefyd yn cwrdd y mesur yn llawn ac wedi cynllunio cwricwlwm lleol mewn ymateb i gyfleoedd lleol a llwybrau dysgu eu dysgwyr. Mae'r ysgol yn cynnig 30 o gyrsiau gan gynnwys 9 o ddewisiadau galwedigaethol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14-19 oed hefyd yn bennaf yn Ysgol Morgan Llwyd, gyda phartneriaethau wedi'u sefydlu â Choleg Cambria a'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg arall mewn awdurdod cyfagos (Ysgol Maes Garmon, Sir y Fflint) i gydweithio â'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae tua 33% o ddysgwyr mewn ysgolion Wrecsam, 16-19 oed ar hyn o bryd yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Coleg Cambria hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau alwedigaethol dwyieithog mewn meysydd penodol megis, Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mewn partneriaeth â Choleg Cambria, **bydd angen parhau i ymchwilio i wybodaeth am y farchnad i bennu anghenion economaidd yr ardal leol gan gynnwys manteision a chyfleoedd i fod yn siaradwyr dwyieithog. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo wrth gynllunio, ariannu a darparu cyrsiau yn y dyfodol trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Bydd angen i'r partneriaethau effeithiol 14-16 a 14-19 hyn nodi ac amlygu'r cyfleoedd yn yr economi ymhellach lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn bwysig ar gyfer gwaith.**

Bydd Rhwydwaith a Fforwm Partneriaeth Dysgu 14-19 Wrecsam, a'r Fforwm Cyd-lywodraethu yn parhau i fonitro a llywio sefydliadau o ran cynorthwyo i ddatblygu a chynig cymwysterau 14-19 priodol a gwerthfawr.

## Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

### Cymraeg iaith Gyntaf

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
% Deilliant CS 5 = 88.4% (Cymru 90.7%)	93.5%	94.0%	94.4%
% Deilliant 6 CS = 31% (Cymru 36.2%)	42.8%	44.7%	45%
% L4+ CA2 = 92.5% (Cymru 90.8%)	96.6%	97.9%	98.4%
% L5+ CA2 = 26.4% (Cymru 36.6%)	41.5%	43.5%	45%
% L5+ CA3 = 97.5% (Cymru 92%)	99.4%	100%	100%
% L6+ CA3 = 79% (Cymru 57.2%)	83%	85%	85.5%
% L2 CA4 = 76.7% (Cymru 75.1%)	80.5%	81%	81.5%

### Cymraeg ail iaith

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
% L4+ CA2 = 80.3% (Cymru 77.9%)	82%	83%	85%
% L5+ CA2 = 25.9%	27%	28.5%	30%
% L5+ CA3 = 78.1% (Cymru 81.9%)	82%	85%	87%
% L6+ CA3 = 31.6% (Cymru 44.6%)	40%	45%	50%
% L2 CA4 = 76.4% (Cymru 70.5%)	77%	78%*	79%*

\*Bydd y canlyniadau yn seiliedig ar y TGAU Cymraeg ail iaith llawn newydd a gyflwynwyd ym Medi 2017.

### Amcanion:

- Parhau i godi a chynnal perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn CA2, CA3 a CA4 erbyn 2020 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru;
- Gwella perfformiad Cymraeg ail iaith yn CA3 o gymharu â chyfartaledd Cymru a pharhau i godi a chynnal perfformiad yn CA2 erbyn 2020;
- Cynyddu nifer y dysgwyr yn CA4 sy'n astudio cwrs llawn Cymraeg ail iaith a gwella perfformiad erbyn 2020 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru;
- Erbyn 2020, sicrhau bod yr holl ddsygwyr yn cael eu paratoi ar gyfer y gweithle, yn cael mynediad i fanteision y Gymraeg yn y gweithle ac yn meddu ar y sgiliau dwyieithog sydd eu hangen ar gyfer datblygiadau economaidd lleol a rhanbarthol gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n ennill sgiliau Cymraeg lefel uwch.

### Datganiad Ategol:

Ceir saith ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog, ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg (Ysgol Morgan Llwyd) yn yr awdurdod. Caiff y prif flaenoriaethau o Gynlluniau Gwella ysgolion eu halinio i gefnogi'r amcan o barhau i godi safonau Cymraeg iaith gyntaf. Mae strategaethau'n ystyried y ffaith bod nifer y dysgwyr sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn cynyddu dros yr wyth mlynedd diwethaf, gyda rhagolygon yn nodi bod nifer cynyddol yn debygol o barhau yn y dyfodol. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod y rhan fwyaf (dros 75%) o'r dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn dod o gartrefi Di-Gymraeg. Mae'n rhaid i'r ffordd o gynllunio ar gyfer codi safonau Cymraeg iaith gyntaf mewn ysgolion gymryd hyn i ystyriaeth.

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn cynnal rhaglen 'Trochi' sy'n galluogi i tua 12 o ddisgyblion y flwyddyn o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg drwy sesiynau trochi dwys ym Mlwyddyn 7 ac 8. Mae'r rhaglen lwyddiannus yn caniatáu i'r ysgol gyflogi athro profiadol ymroddedig ac mae'n galluogi i ddisgyblion sydd ag ychydig neu ddim Cymraeg ym Mlwyddyn 6 fod yn gwbl rhugl erbyn Blwyddyn 9, a chael eu haddysgu yn y brif ffordd, gan barhau i astudio TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyraeddiadau'r dysgwyr hyn yn eu harholiadau TGAU yn debyg iawn i gyraeddiadau'r dysgwyr eraill sydd wedi cael eu haddysgu drwy ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Yn 2014, nododd Estyn fod hyn yn nodwedd arwyddocaol o ddarpariaeth yr ysgol. Drwy'r rhaglen Trochi dros y deng mlynedd diwethaf, amcanfyfrifir bod tua 120 o ddisgyblion ychwanegol wedi cael eu haddysgu yn lwyddiannus trwy addysg

cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam na fyddai wedi gwneud hynny fel arall. **Bydd ariannu'r rhaglen lwyddiannus hon dros gyloch 2017-2020 y CSCA yn parhau.**

Dros y tair blynedd diwethaf (2014, 2015 a 2016) mae dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn Wrecsam wedi cyflawni'n llawer gwell mewn Cymraeg iaith gyntaf na chyfartaledd Cymru ar Lefel 5+ a Lefel 6+, gyda chynnydd sylweddol mewn cyflawniad rhwng 2015 a 2016 (Wrecsam 2015 Lefel 5+ 93.9% o gymharu â Chymru 90.5%, Wrecsam 2016 Lefel 5+ 97.5% o gymharu â Chymru 92%). Dros y cyfnod 2014-2016, mae perfformiad dysgwyr Wrecsam ar Lefel 5+ wedi gweld cynnydd mewn cyrhaeddiad sydd dair gwaith cyfartaledd Cymru (cynnydd o +5.8% yn Wrecsam o'i gymharu â chynnydd o +1.8% yng Nghymru).

Mae'r canlyniadau ar lefel uwch 6+ wedi bod yn sylweddol uwch yn Wrecsam na chyfartaledd Cymru, gyda chanlyniadau yn 2016 yn un o'r perfformiadau gorau yng Nghymru (Wrecsam 2015 Lefel 6+ 61.7% o gymharu â Chymru 57.2%, Wrecsam 2016 Lefel 6+ 79% o gymharu â Chymru 56.1%). Dros y cyfnod 2014-2016, mae perfformiad dysgwyr Wrecsam ar Lefel uwch 6+ wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cyrhaeddiad sydd wyth gwaith cyfartaledd Cymru (cynnydd o +25.7% yn Wrecsam o'i gymharu â chynnydd o +3.2% yng Nghymru).

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad dysgwyr yn Wrecsam ar Lefel 2 mewn Cymraeg iaith gyntaf wedi bod yn uwch na pherfformiad Cymru am y ddwy flynedd flaenorol (Wrecsam 2015 76.7% o gymharu â Chymru 75.2%, Wrecsam 2016 76.7% o gymharu â Chymru 75.1%). Mae 100% o'r dysgwyr yn Ysgol Morgan Llwyd yn dilyn y cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf. **Mae parhau i wella perfformiad yn Lefel 2 Cymraeg iaith gyntaf yn flaenoriaeth ar gyfer yr ysgol a'i Chynllun Gwella dros y tair blynedd nesaf.**

Fel yr unig ddarparwr cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 5, gall dysgwyr ond ddilyn Cymraeg iaith gyntaf Safon Uwch yn Ysgol Morgan Llwyd. O ganlyniad, mae'r garfan sydd ar gael i astudio'r cymhwyster wedi ei gyfyngu i nifer o fewn yr ysgol. Mae llwyddiant yn y pwnc yn dda. Fodd bynnag, mae angen ceisio cynyddu'r niferoedd sy'n dewis y cwrs o hyd. **Bydd strategaethau i hyrwyddo'r pwnc yn ogystal â gwell cyfleoedd pwnc gyda phrifysgolion a diwydiant yn cael eu datblygu, gan gynnwys gwell canllawiau gyrfa, mwy o wybodaeth mewn ffeiriau gyrfaedd a gwell cysylltiadau â sefydliadau, megis Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo dwyieithrwydd a'r bartneriaeth i amlygu cyfleoedd dwyieithog gyda Scottish Power a Charchar Berwyn.**

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae dysgwyr yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi perfformio'n llawer gwell yn 2016 na gweddill Cymru (Wrecsam 2016 L4 + 92.5% o gymharu â Chymru 90.8%). Dros y cyfnod 2014-2016, mae perfformiad dysgwyr Wrecsam ar Lefel 4+ wedi bod yn well na Chymru mewn dwy allan o'r tair blynedd ac yn ystod yr un cyfnod wedi bod yn gyson gyda Chymru yn y cynnydd canrannol dros y tair blynedd (Wrecsam +2.1%, Cymru +2.7%).

Mae perfformiad Canlyniad 5 mewn Cymraeg iaith gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen wedi gwella mewn dwy allan o'r tair blynedd diwethaf, fodd bynnag, mae angen parhau i geisio gwella a chodi safonau o hyd, o gymharu â pherfformiad Cymru. **Bydd cynllunio strategol o fewn Cynllun Gwella pob ysgol gynradd yn mynd i'r afael â'r angen i godi safonau.**

Mae gan y clwstwr cyfrwng Cymraeg o ysgolion cynradd ac Ysgol Morgan Llwyd bartneriaeth gydweithredol gref. Dros nifer o flynyddoedd, mae ffocws cyfarfodydd strategol yn ogystal â chyfarfodydd safoni a chymedroli wedi bod ar godi safonau llythrennedd yng Nghymru, yn ogystal â safonau pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Mae'r gwelliant parhaus mewn perfformiad dysgwyr Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yng Nghyfnod Allweddol 3 yn brawf o waith y bartneriaeth. **Bydd cydweithio agos y clwstwr yn parhau ar gyfer cylch 2017-2020 y CSCA.**

Gall gwelliant cyrhaeddiad dysgwyr mewn Cymraeg iaith gyntaf ar Lefel 4+, Lefel 5+ a Lefel 6+ gael ei briodoli i well cynllunio strategol ar bob lefel, gwell monitro perfformiad dysgwyr, rhannu arfer da a gwell dulliau addysgu a dysgu, sy'n galluogi i ddisgyblion ddatblygu ac ymarfer eu sgiliau. **Bydd gweithredu a monitro'r strategaethau effeithiol hyn yn parhau ar gyfer cylch 2017-2020 y CSCA.**

Caiff llythrennedd iaith Gymraeg ei fonitro gan bob ysgol, yr ALI a gan GwE. Mae Cynghorydd Herio cyswllt GwE ar gyfer pob ysgol yn cysylltu â'r Uwch Swyddog yn yr ALI ac yn rhoi adborth am effeithiolrwydd unrhyw gamau dilynol gan yr ysgol. Mae Cymunedau Dysgu Proffesiynol o fewn ysgolion hefyd wedi targedu perfformiad llythrennedd bechgyn a datblygu ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. **Mae gan Gynlluniau Gwella Ysgolion, Cynlluniau Gwella Adrannol a Chynlluniau Gwaith strategaethau llythrennedd iaith Gymraeg wedi'u hintegreiddio er mwyn parhau i godi safonau.**

Bydd Cymraeg fel ail iaith yn parhau i gael ei ddatblygu yn ystod y tair blynedd nesaf a thu hwnt fel continwrm. Mae gan ysgolion cyfrwng Saesneg o'r cyfnod uwchradd a chynradd berthnasau clwstwr cryf ac maent wedi datblygu dealltwriaeth dda o lefelau. Mae Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg CBSW hefyd yn



darparu cefnogaeth sylweddol bwysig ar gyfer y cyfnod cynradd. Er bod perfformiad dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi bod yn uwch yn Wrecsam o gymharu â Chymru dros y tair blynedd diwethaf, mae angen gwella safonau yng Nghyfnod Allweddol 3 o hyd. Bydd angen **gwelliant o ran pontio'r pwnc rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â chodi dyheadau a chyrraedd diadysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn benodol yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae cynlluniau i ymateb i'r her hon yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.**

**Gellir ennill y cyfle i rannu dulliau addysgu ar gyfer addysgu Cymraeg, adnoddau ac arfer da drwy wneud trefniadau i ymarferwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg gael cyfnodau o brofiad mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.** Bydd dulliau arloesol o gydweithio a rhannu syniadau rhwng ysgolion yn galluogi gwell cyrraedd yn y Gymraeg. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd i ymchwilio i'r posibilrwydd o weithredu'r fenter hon.

Mae angen annog dysgwyr sydd â sgiliau ail iaith uwch i wella ac ymarfer eu sgiliau ymhellach. Mae cyfle i **drefnu bloc o raglen astudio sy'n dwyn ynghyd ymarferwyr profiadol i dargedu dysgwyr penodol ac yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ymhellach.**

Mae angen parhau i gefnogi dysgwyr sy'n gwneud y penderfyniad i fynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyr yn yr ysgol gynradd hefyd. **Bydd yr ALI yn ymchwilio i'r cyfle i ddatblygu Uned Iaith ar gyfer hwyrdyfodiaid i'r cyfnod cynradd cyfrwng Cymraeg.**

Mae data Cyfnod Allweddol 4 yn dangos bod tua hanner y dysgwyr yn dilyn y cwrs Cymraeg ail iaith llawn neu gwrs llawn Cymhwysol, ac mae perfformiad Wrecsam dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn dda ac yn perfformio'n gyson â chyfartaledd rhanbarthol GwE dros yr un cyfnod (gweler Atodod 1). Yn 2016 roedd 12% o ddysgwyr mewn ysgolion Wrecsam heb eu cofrestru ar gyfer cymhwyster Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 gyda gweddiill y dysgwyr wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf un o'r pedwar cymhwyster ail iaith sydd ar gael (Llawn, Llawn Gymhwysol, Byr neu Byr Cymhwysol). Fodd bynnag, mae angen **cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster Cymraeg ail iaith llawn yng Nghyfnod Allweddol 4 yn unol â'r newidiadau arfaethedig i'r cymhwyster CBAC yn 2017 a thu hwnt, ac i barhau i gynnal, yn ogystal â gwella perfformiad y dysgwyr yn y pwnc.**

Yng Nghyfnod Allweddol 5, mae Cymraeg ail iaith Safon Uwch ar gael yn y ddwy ysgol uwchradd ôl 16 cyfrwng Saesneg ac yng Ngholeg Cambria. Mae'r niferoedd sy'n cymryd y pwnc yn isel ar hyn o bryd, tra bod canlyniadau yn gyffredinol dda. Er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cymryd y pwnc, **bydd yr ALI, mewn partneriaeth â'r holl ysgolion uwchradd, Coleg Cambria, Gyrfa Cymru a diwydiannau, yn ymdrechu i hyrwyddo a chodi proffil y pwnc yn ogystal â'r cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa a ddaw yn sgil meddu ar sgiliau Cymraeg lefel uwch.** Mae Coleg Cambria yn parhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg ac yn darparu unedau sgiliau iaith Cymraeg fel rhan o raglenni cyfrwng saesneg mewn amrywiaeth o feysydd alwedigaethol.

Bydd yr ALI yn cefnogi ysgolion yn y datblygiadau i wella safonau Cymraeg ail iaith drwy Gymdeithas Penaethiaid Uwchradd Wrecsam (WASH), Ffederasiwn Gynradd y Prifathrawon, Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg a'r Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl fudd-deiliaid yn y Fwrdeistref. **Bydd strategaethau i godi safonau dros y tair blynedd nesaf yn cynnwys cynllunio strategol, codi proffil y pwnc, cynllunio'r cwricwlwm, cynllunio a dyrannu adnoddau, darparu hyfforddiant a rhannu arfer da o ran addysgu a dysgu.**

**Bydd yr ALI yn ymdrechu i annog deialog rhanbarthol rhwng ALIau, Llywodraeth Cymru a GwE er mwyn hyrwyddo strategaeth ranbarthol a rhoi cefnogaeth i gynorthwyo'r pontio o ysgolion i ymateb i heriau'r cymhwyster TGAU Cymraeg ail iaith newydd yn 2017, yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol y tu hwnt i hyn.**

Mae cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith mewn lleoliad ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu cynnig trwy fentrau a digwyddiadau o fewn ysgolion unigol, ond hefyd drwy waith yr Urdd, Menter Iaith a Senedd yr Ifanc. Mae gan rai ysgolion Hyrwyddwr y Gymraeg neu aelod penodedig o staff sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, fodd bynnag, nid oes gan bob ysgol y ddarpariaeth hon.

Mae Menter Iaith Maelor yn cynnig y cyfle i bobl ifanc ymarfer a defnyddio'r iaith Gymraeg mewn gweithgareddau a digwyddiadau fel sesiynau rhieni a phlant bach 'Sblash a Chân' a 'Rhigwm a Chân' i ymarfer hwiangerddi. Mae mentrau i hyrwyddo apiau iaith mewn ysgolion gyda chymeriadau plant enwog megis Magi Ann wedi cael eu cynnal, yn ogystal â threfnu gweithgareddau allgyrsiol megis sesiynau crefft a drama yn ystod y gwyliau ac ar benwythnosau. Mae enwogion fel DJ Huw Stephens wedi cael eu trefnu hefyd i hyrwyddo ac amlygu dwyieithrwydd.

Mae Senedd yr Ifanc yn cynnig y cyfle i bobl ifanc gymryd rhan a bod yn rhan weithredol o faterion sy'n berthnasol i bobl ifanc yng Nghymru a'r byd ehangach.

Mae sefydliad yr Urdd yn rhoi cyfle pwysig mewn ysgolion i ddisgyblion gymdeithasu, normaleiddio, cael hwyl, mynd ar dripiâu a chymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau drwy ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. O fewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r Urdd yn cynnig Clybiau Cinio Cymraeg lle caiff dysgwyr gyfle i gael hwyl ac ymarfer eu Cymraeg, a normaleiddio'r defnydd o'r iaith. Nid yw'r holl ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn cynnig Clybiau Cinio Cymraeg ar hyn o bryd. Yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae'r cynllun eto i'w ddatblygu'n llawn. Mae'r Urdd hefyd yn rhedeg 'Cynllun Cymraeg bob dydd' sy'n gynllun sy'n cefnogi disgyblion ail iaith i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Urdd hefyd wedi adeiladu cronfa o wirfoddolwyr ifanc o fewn yr awdurdod lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau ieuentid i hyrwyddo'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae gan yr Urdd gyllid ar gyfer un ar hugain o oriau yr wythnos ond gall y cyllid ychwanegol gynyddu nifer yr oriau sydd ar gael, ac o ganlyniad gellid targedu ysgolion bob dydd a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhellach. **Bydd y cyfle i gyflogi Gweithiwr Ieuentid yr Urdd llawn amser yn cael ei ymchwilio.**

Mewn partneriaeth â Choleg Cambria drwy Ganolfan Ddysgu CAMU, roedd modd i Ddisgyblion Mwy Galluog a Thalentog Blwyddyn 10 o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg gymryd rhan mewn sesiynau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

Mae'r ALI wedi bod yn ymgynghori gyda'i breswylwyr yn ymwneud â'r galw am wersi nofio cyfrwng Cymraeg er mwyn nodi a chynllunio darpariaeth bosibl. **Bydd angen cynnal ymchwiliadau pellach i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pob cymuned ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi bod yn weithredol ac wedi cyflwyno Siarter Iaith. Mae cyfranogiad ac ymglymiad gan ddisgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a budd-ddeiliaid eraill wedi sicrhau perchnogaeth lawn ohono. Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg eisoes wedi cyflawni Gwobr Efydd. **Y nod yw symud ymlaen tuag at y Wobr Arian ac ennill y Wobr Aur erbyn diwedd cylch 2017-2020 y CSCA, gan ymestyn y rhaglen i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 3.**

Er mwyn codi a datblygu ymwybyddiaeth bellach mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, bwriedir cynnal y cynllun Campws Cymraeg. Mae'r cynllun llwyddiannus hwn yn debyg i'r Siarter Iaith ond mae'n targedu ysgolion nad ydynt yn ysgolion iaith gyntaf. **Caiff cyfleoedd i gyflwyno Campws Cymraeg eu hymchwilio.**

## **Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg**

Amcanion:

- Parhau i feithrin gallu o fewn pob lleoliad i ddatblygu, darparu a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i ddysgwyr ag ADY
- Gwellu canlyniadau i ddysgwyr sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Anelu at gael staff sy'n siarad Cymraeg ym mhob tîm cymorth addysg a gwasanaethau allgymorth
- Yn dilyn archwiliad ADY annibynnol, datblygu cynllun gweithredu i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pob dysgwr

Datganiad Ategol:

Mae gan yr holl ddysgwyr sydd ag anghenion Dysgu Ychwanegol yn Wrecsam fynediad at ystod o ddarpariaethau a gwasanaethau arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae datblygu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Yn 2015, yn dilyn ymgynghori helaeth â budd-ddeiliaid perthnasol, cafodd darpariaethau ag adnoddau llawn amser eu sefydlu yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Boddyfryd. Mae'r ddwy ddarpariaeth ag adnoddau yn darparu cefnogaeth arbenigol llawn amser ar gyfer dysgwyr Cymraeg, o Hawl Cynnar i Flwyddyn 6. Caiff fynediad i'r ddarpariaeth ei reoli gan banel safoni Anghenion Dysgu Ychwanegol a phanel cyn ysgol yr ALI.

Mae darpariaeth arbenigol yn parhau yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 a 5 yn Ysgol Morgan Llwyd o fewn Darpariaethau ag Adnoddau'r DRhA ac Anawsterau Dysgu Penodol. Mae'r ysgol hefyd wedi datblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol. Mae tîm o ymarferwyr profiadol yn cynnig cefnogaeth i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion ar Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r ALI, ac ystod o wasanaethau cefnogi allanol ac asiantaethau allanol. Fodd bynnag, mae dal i fod prinder o arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg o fewn rhai o'r gwasanaethau

a'r timau sy'n cefnogi ysgolion, gan gynnwys y gwasanaeth Allgymorth Lleferydd ac Iaith, y gwasanaeth llythrennedd a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg.

Eleni mae aelod o'r tîm cynhwysiant wedi mynychu'r cwrs sabothol trochi a bydd cyfleoedd yn y dyfodol i aelodau eraill o'r tîm i gael mynediad i'r hyfforddiant. Bydd cynllunio yn y dyfodol yn ymdrechu i ystyried sgiliau iaith Gymraeg wrth recriwtio arbenigwyr newydd.

Mae'r ALI yn gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos ac mae trefniant ar gyfer cydweithio rhwng awdurdodau ar gyfer meysydd penodol o ddarpariaeth gwasanaeth e.e., cyfranogiad Seicolegydd Addysg, i gael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg pan fo angen. Bydd cynllunio yn y dyfodol yn ystyried cyfleoedd pellach.

Mae perfformiad dysgwyr ADY yn y pwnc Cymraeg iaith gyntaf wedi bod yn galonogol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

<b>*Perfformiad dysgwyr ADY mewn Cymraeg iaith gyntaf / ALN Learners' performance in Welsh first language</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>
Cyfnod Allweddol 2/ Key Stage 2	22.4%	24.9%	50.0%
Cyfnod Allweddol 3/ Key Stage 3	55.0%	78.1%	86.4%
Cyfnod Allweddol 4/ Key Stage 4	13.8%	44.8%	38.5%

*\*Mae'n bwysig nodi bod natur ADY yn amrywio o ddysgwr i ddysgwr ac o garfan i garfan ac o ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cael ei ddarparu ar anghenion yr unigolion.*

Mae archwiliad trylwyr ac annibynnol o ddarpariaeth ADY ar draws holl ysgolion Wrecsam wedi ei wneud yn ddiweddar. Yn dilyn yr adolygiad o ddarpariaeth ag adnoddau ADY yn Wrecsam yn 2016, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda phenaethiaid yn Hydref 2016 a gyda Chydlynwyr ADY yn nhymor y Gwanwyn 2017. Dadansoddwyd yr adborth yn nhymor yr Haf 2017 a nodwyd y blychau yn y ddarpariaeth. Y tymor hwn, Hydref 2017, mae cyfarfodydd wedi eu trefnu gyda phenaethiaid pob ysgol gyda darpariaeth ag adnoddau i drafod newidiadau posibl.

Cyflwynwyd y Data a Gasglwyd gan y Gwasanaeth Cefnogi Arbenigol ym Mawrth 2017 yn unol â chais Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi adnabod y galw cynyddol a'r prinder sy'n debygol o fod o fewn y gweithlu yn y dyfodol. Mae Wrecsam wedi nodi fod yna nifer gyfyngedig o staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl. I gynorthwyo i ymdrin â hyn mae aelod o'r Gwasanaeth Llythrennedd wedi cymryd rhan mewn rhaglen drochi sabothol eleni ym Mhrifysgol Bangor. Yn dilyn llwyddiant hyn, mae staff Cynhwysiant eraill yn ystyried cymryd rhan. Mae'r ALI hefyd wedi gofyn am Seicolegwyr Addysg dan Hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg a byddwn yn ceisio recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn y dyfodol.

**Bydd hyn yn sefydlu gweledigaeth hirdymor strategol ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Wrecsam yn y dyfodol, ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, gan gynnwys ein dysgwyr cyfrwng Cymraeg ac yn galluogi'r awdurdod i gwrdd â gofynion y mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys sydd ar y gweill.**

## **Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).**

Amcanion:

- Hyrwyddo a chynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol Cymraeg er mwyn bodloni gofynion yr ysgolion yn strategol;
- Cryfhau anghenion ymarferwyr o ran y Gymraeg mewn ysgolion penodol;
- Cydweithio â budd-ddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol i fynd i'r afael â'r mater o recriwtio o fewn addysg cyfrwng Cymraeg;
- Sicrhau defnyddio'r deallusrwydd marchnad lafur diweddaraf i gynllunio

Datganiad Ategol:

Mae'r ALI yn cynnal archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg o fewn ei ysgolion. Caiff y canlyniadau eu defnyddio i gynllunio gofynion hyfforddi a chynorthwyo Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg wrth roi ffocws ar adnoddau a thargedu cymorth. Mae'r archwiliad, ynghyd â thrafodaethau gyda Chymdeithas Penaethiaid Uwchradd

Wrecsam a Phenaeithiaid Cynradd sy'n Bwydo hefyd yn helpu i nodi bylchau neu faterion sy'n ymwneud ag arbenigedd iaith i ddatblygu cynlluniau priodol. **Bydd hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer ymarferwyr yn parhau i gael eu cynllunio a'u datblygu yn seiliedig ar yr angen ieithyddol a nodir.**

Mae ymarferwyr o CBSW yn cymryd rhan ar y Cynllun Sabothol Cymraeg ar hyn o bryd, a darperir gwybodaeth i sefydliadau am y cyrsiau sydd ar gael i ymarferwyr gan gynnwys cynorthwywyr addysgu sydd am wella eu hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae niferoedd sydd wedi cofrestru yn isel. **Bydd cynlluniau'n cael eu datblygu i hyrwyddo a chynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn ystod cylch y CSCA.**

Bydd angen i strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol ystyried cynyddu nifer y cyrsiau Sabothol er mwyn codi sgiliau'r gweithlu a diwallu anghenion datblygu iaith y sefydliadau. **Bydd Fforwm y CSCA yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhanbarth a LIC er mwyn ymateb i'r her bwysig hon.**


Mae recriwtio siaradwyr Cymraeg rhugl i swyddi addysgu, swyddi hyfforddwyr, rolau cynorthwywyr addysgu, gweithwyr cymorth yn ogystal â staff gweinyddol i ysgolion, colegau a dysgu sy'n seiliedig ar waith yng ngogledd ddwyrain Cymru yn gyffredinol, yn her o'i gymharu ag ardaloedd eraill yn y rhanbarth, ac mae'n her hanesyddol benodol i Wrecsam. Mae rhai rolau addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, megis mathemateg, ffiseg, cemeg a gwyddor bwyd neu arlwyg yn y cyfnod uwchradd, yn ogystal â swyddi cynorthwydd addysgu ar draws pob cyfnod, yn arbennig o anodd eu llenwi oherwydd y diffyg gweithwyr proffesiynol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i'w recriwtio o'r ardal gyfagos. Mae'r mater hwn o weithlu sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn broblem gyffredin ar draws rhannau eraill o Gymru hefyd. Mae'r adolygiad diweddar gan Lywodraeth Cymru o'r rhaglen Hyfforddi Athrawon ac adolygu Safonau Proffesiynol Athrawon wedi rhoi cyfle amserol i helpu i fynd i'r afael â'r mater ar sail genedlaethol ac i helpu i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol addysgu yn y dyfodol yn gymwys yn y Gymraeg er mwyn gallu gweithio ym mhob ysgol yng Nghymru yn y dyfodol. Nes bydd strategaethau o'r fath wedi eu datblygu, bydd cyfranogiad a chyfraniad gan Brifysgol Glyndŵr yn Fforwm CSCA a'u cydweithrediad â phrifysgolion eraill fel Prifysgol Cymru a Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymwneud â darpariaeth TAR yn ogystal â'r darparwr AB Coleg Cambria yn bwysig o ran rhannu gwybodaeth am anghenion a chyfluoedd ar gyfer hyfforddi athrawon, hyfforddwyr a gweithwyr cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydlwyd yn ddiweddar yn cwmpasu Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Choleg Cambria ar y cyd hefyd yn helpu i ddatblygu cyfluoedd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr yn yr ardal. **Bydd angen i Fforwm y CSCA nodi a thynnu sylw at yr heriau recriwtio drwy ei fudd-ddeiliaid a chydweithio gyda fforymau'r rhanbarth, Cyngor Gweithlu Addysg a Llywodraeth Cymru i ymdrechu i fynd i'r afael â'r mater.**

**Bydd Fforwm y CSCA hefyd yn amlygu a hyrwyddo'r angen am gynorthwywyr addysgu cyfrwng Cymraeg a staff cefnogi, a bydd yn nodi'r llwybrau dysgu a'r cyfluoedd gyrfa sydd ar gael i unigolion mewn ysgolion, colegau a dysgu sy'n seiliedig ar waith.**

Mae cyrsiau arweinyddiaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cael eu darparu gan GwE. Ar y cyd â budd-ddeiliaid eraill, maent wedi datblygu rhaglen arweinyddiaeth traws-sector, a chaiff gwybodaeth ei throsglwyddo a'i hyrwyddo mewn ysgolion. Felly, anogir staff i ddatblygu'n broffesiynol.

Mae'r darparwr AB yn yr awdurdod, Coleg Cambria, hefyd yn darparu cefnogaeth a chyfluoedd gwerthfawr i unigolion ac ymarferwyr sy'n datblygu yn eu Cymraeg i ymarfer, dod yn fwy hyderus a themlo'n fwy cyfforddus yn siarad a defnyddio'r iaith yng Nghanolfan Iaith CAMU. Mae cyfluoedd o'r fath yn cynnwys sesiynau Paned a Sgwrs a gynhelir bob yn ail wythnos, sy'n cynnig cyfle i ymarfer mewn sefyllfa anffurfiol, a chynhelir Clinigau Iaith Gymraeg bob yn ail wythnos.

Mae Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg CBSW hefyd yn defnyddio'r ganolfan CAMU ac wedi cynnal cyrsiau hyfforddiant methodoleg yr iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr, sy'n cynnwys cyrsiau diwrnod cyfan a sesiynau cyfnos.

Llofnodwyd: 

28 Medi 2017

Dyddiad: .....

**Crynodeb o Brif Bwyntiau Gweithredu CSCA CBSW  
2017-2020**

**Symud ymlaen** - Bydd cynllun gweithredu blynyddol manwl yn cael ei baratoi gan bob un o dri is-grŵp y Fforwm, gweler enghreifftiau yn Atodiad 2, a bydd yn cael ei gefnogi a'i gydlynu gan yr ALI, yn cwmpasu pwyntiau gweithredu'r CSCA ac yn cael y dasg o ddatblygu, gweithredu, monitro ac adolygu pob cynllun gweithredu, ei dargedau a pherfformiad. Bydd y Fforwm yn cael trosolwg strategol o'r cynlluniau gweithredu a gweithrediad ac adolygiad o'r CSCA.

Is-grŵp Darpariaeth	Dyddiad adolygu .....	Gweithred Barhaus	Gweithred Newydd	Cynnydd (COG)
1. Bydd gweithredu'r buddsoddiad cyfalaf yn sicrhau mwy o gapasiti yn y sector cyfrwng Cymraeg. (Deilliant 1).			✓	
2. Yn ystod cyfnod y CSCA bydd y prosiect yn Ysgol Morgan Llwyd yn arwain at gynnydd yn y capasiti o 240 o leoedd newydd ychwanegol. (Deilliant 1)			✓	
3. Bydd angen ystyried cynllunio darpariaeth uwchradd yn y dyfodol yn y cyfnod CSCA nesaf yn unol â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (2019-2024) Llywodraeth Cymru. (Deilliant 1).			✓	
4. Bydd yr ALI yn sicrhau bod cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn ymateb i unrhyw gynnydd mewn niferoedd sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg (Deilliant 1)		✓		
5. Bydd yr ALI yn edrych i ddatblygu un ddarpariaeth newydd yn y Fwrdeistref a fydd yn darparu capasiti ysgol gyfan ychwanegol cychwynnol o 105 o leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gyda golwg o symud i gapasiti ysgol gyfan o 210 a darpariaeth gofod meithrin o 30, yn ddibynnol ar ymgynghoriad. (Deilliant 1).			✓	
6. Bydd yr ALI yn ystyried ymgynghori ar newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw o'r flwyddyn academaidd nesaf. Bydd hyn yn ychwanegu at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yr ALI ac yn creu capasiti ysgol gyfan o 56 lle. (Deilliant 1).			✓	
7. Bydd yr ALI yn parhau i sicrhau ei fod yn darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg i bawb sydd am ei gael (Deilliant 1).		✓		
8. Dylai gweithredu'r prosiectau sydd wedi cael eu nodi i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach yn y cylch CSCA (2017-2020) arwain at gynnydd yn y capasiti o 401 o leoedd ychwanegol yn cael eu datblygu wedi eu lleadaenu ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd. (Deilliant 1).			✓	
9. Gwella'r modd o hyrwyddo'r rhaglen 'Trochi' a fyddai'n cyflawni cynnydd cyson o ddisgyblion sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3. Byddai angen cynllunio gofalus a dyrannu adnoddau ar gyfer cael unrhyw gynnydd mewn niferoedd (Deilliant 2).			✓	
10. Bydd ariannu rhaglen lwyddiannus Trochi dros gylch 2017-2010 y CSCA yn parhau (Deilliant 5).		✓		
11. Bydd yr ALI yn ymchwilio i'r cyfle i ddatblygu Uned Iaith ar gyfer hwyrddyfodiad i'r cyfnod cynradd cyfrwng Cymraeg (Deilliant 5)			✓	
12. Bydd Gweithredu'r cynllun 'Cymraeg i Blant' yn hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog a darpariaeth cyfrwng Cymraeg i rieni. (Deilliant 2)			✓	
13. Bydd angen parhau i gyllido'r ddarpariaeth gan Mudiad Meithrin yn ystod cylch 2017-2020 y CSCA (Deilliant 2)		✓		
14. Mae angen archwilio'r opsiynau i gynyddu darpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg, yn ogystal ag archwilio, amlygu a hyrwyddo gwybodaeth am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach i gael gwared ar unrhyw bryderon sydd gan rieni cyn-ysgol (Deilliant 2).			✓	
15. Bydd y cyfle i gyflogi Gweithiwr Ieuenctid yr Urdd llawn amser yn cael ei ymchwilio (Deilliant 5).			✓	
16. Bydd angen cynnal ymchwiliadau pellach i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol (Deilliant 5).			✓	
17. Yn dilyn archwiliad Anghenion Dysgu Ychwanegol annibynnol diweddar, darparu gweledigaeth hirdymor strategol ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Wrecsam yn y dyfodol, ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, gan gynnwys ein dysgwyr cyfrwng Cymraeg a galluogi'r awdurdod i gwrdd â gofynion y mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys sydd ar y gweill. (Deilliant 6).			✓	

Is-grŵp Safonau	Dyddiad adolygu .....	Gweithred Barhaus	Gweithred Newydd	Cynnydd (COG)
18. Bydd budd-ddeiliaid yn y Fforwm a Rhwydwaith 14-19 Wrecsam angen amlygu'r pryderon ar lefel ranbarthol a chenedlaethol ynglŷn â chael gwared ar y cymwysterau L2 trwy gyfrwng y Gymraeg heb ystyriaeth ddyledus i ddarpariaeth amgen a chanlyniadau o ran cydraddoldeb argaeledd darpariaeth i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg. (Deilliannau 3,4).			✓	
19. Bydd angen parhau i ymchwilio i wybodaeth am y farchnad i bennu anghenion economaidd yr ardal leol gan gynnwys manteision a chyfleoedd i fod yn siaradwyr dwyieithog. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo wrth gynllunio, ariannu a darparu cyrsiau yn y dyfodol trwy gyfrwng y Gymraeg (Deilliant 3, 4).		✓		
20. Bydd angen i bartneriaethau effeithiol 14-16 a 14-19 nodi ac amlygu'r cyfleoedd yn yr economi ymhellach lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn bwysig ar gyfer gwaith (Deilliant 3, 4).			✓	
21. Mae parhau i wella perfformiad yn Lefel 2 Cymraeg iaith gyntaf yn flaenoriaeth ar gyfer Ysgol Morgan Llwyd a'i Chynllun Gwella dros y tair blynedd nesaf (Deilliant 5).		✓		
22. Caiff strategaethau i hyrwyddo Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf er mwyn codi niferoedd yn ogystal ag amlygu gwell cyfleoedd pwnc gyda phrifysgolion a diwydiant eu datblygu, gan gynnwys arweiniad gyrfa gwell, mwy o wybodaeth mewn ffeiriau gyrfaedd a gwell cysylltiadau â sefydliadau, megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo dwyieithrwydd a'r bartneriaeth i amlygu cyfleoedd dwyieithog gyda Scottish Power a Charchar Berwyn (Deilliant 5).			✓	
23. Bydd cynllunio strategol o fewn Cynllun Gwella pob ysgol gynradd yn mynd i'r afael â'r angen i godi safonau perfformiad Canlyniad 5 Cymraeg iaith gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen (Deilliant 5).		✓		
24. Bydd y cydweithio agos a llwyddiannus gan y clwstwr cyfrwng Cymraeg yn parhau ar gyfer cylch 2017-2020 y CSCA er mwyn parhau â pherfformiad llwyddiannus cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 a datblygu llythrennedd Cymraeg (Deilliant 5).		✓		
25. Mae gweithredu a monitro'r strategaethau effeithiol sydd wedi gwella perfformiad yn Lefel 4+, Lefel 5+ a Lefel 6+ Cymraeg iaith gyntaf yn parhau ar gyfer cylch 2017-2020 y CSCA (Deilliant 5).		✓		
26. Mae gan Gynlluniau Gwella Ysgolion, Cynlluniau Gwella Adrannol a Chynlluniau Gwaith strategaethau llythrennedd iaith Gymraeg wedi'u hintegreiddio er mwyn parhau i godi safonau (Deilliant 5).		✓		
27. Bydd angen datblygu Gwelliant o ran y pontio Cymraeg ail iaith rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â chodi dyheadau a chyrhaeddiad dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn benodol yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae cynlluniau i ymateb i'r her hon yn cael eu datblygu ar hyn o bryd (Deilliant 5).			✓	
28. Gellir ennill y cyfle i rannu dulliau addysgu ar gyfer addysgu Cymraeg, adnoddau ac arfer da drwy wneud trefniadau i ymarferwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg gael cyfnodau o brofiad mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (Deilliant 5).			✓	
29. Trefnu rhaglen astudio bloc sy'n dwyn ynghyd ymarferwyr Cymraeg profiadol i dargedu dysgwyr ail iaith penodol yn ogystal â dysgwyr ail iaith mwy galluog, a chaniatáu iddynt ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ymhellach (Deilliant 5).			✓	
30. Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster Cymraeg ail iaith llawn yng Nghyfnod Allweddol 4 yn unol â'r newidiadau arfaethedig i'r cymhwyster CBAC yn 2017 a thu hwnt, ac i barhau i gynnal, yn ogystal â gwella perfformiad y dysgwyr yn y pwnc (Deilliant 5).			✓	
31. Er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r pwnc, bydd yr ALI, mewn partneriaeth â'r holl ysgolion uwchradd, Coleg Cambria, Gyrfa Cymru a diwydiannau, yn ymdrechu i hyrwyddo a chodi proffil Safon Uwch Cymraeg ail iaith yn ogystal â'r cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa a ddaw yn sgil meddu ar sgiliau Cymraeg lefel uwch (Deilliant 5).			✓	
32. Bydd strategaethau i godi safonau Cymraeg ail iaith yn y cyfnodau i gyd dros y tair blynedd nesaf yn cynnwys cynllunio strategol, codi proffil y pwnc, cynllunio'r cwricwlwm, cynllunio a dyrannu adnoddau, darparu hyfforddiant a rhannu arfer da o ran addysgu a dysgu (Deilliant 5).			✓	

33. Bydd yr ALI yn ymdrechu i annog deialog rhanbarthol rhwng ALLau, Llywodraeth Cymru a GwE er mwyn hyrwyddo strategaeth ranbarthol a rhoi cefnogaeth i gynorthwyo'r pontio o ysgolion i ymateb i heriau'r cymhwyster TGAU Cymraeg ail iaith newydd yn 2017, yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol y tu hwnt i hyn (Deilliant 5).		✓	
34. Y nod yw symud ymlaen tuag at Wobr Arian y Siarter Iaith yn yr holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, ac ennill y Wobr Aur erbyn diwedd cylch 2017-2020 y CSCA, gan ymestyn y rhaglen i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 3 (Deilliant 5).		✓	
35. Bydd cyfleoedd i ddarparu Cymraeg Campus (Siarter Iaith) yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn cael ei ymchwilio (Deilliant 5).		✓	

Is-grŵp y Gweithlu	Dyddiad adolygu .....	Gweithred Barhaus	Gweithred Newydd	Cynnydd (COG)
36. Bydd hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer ymarferwyr yn parhau i gael eu cynllunio a'u datblygu yn seiliedig ar yr angen ieithyddol a nodir (Deilliant 7).		✓		
37. Bydd cynlluniau'n cael eu datblygu i hyrwyddo a chynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol Cymraeg yn ystod cylch y CSCA (Deilliant 7).			✓	
38. Bydd Fforwm y CSCA yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhanbarth a LIC er mwyn amlygu ac ymateb i'r her bwysig o gynyddu nifer y cyrsiau Sabothol, er mwyn gwella sgiliau'r gweithlu a diwallu anghenion datblygu iaith y sefydliadau (Deilliant 7).			✓	
39. Bydd angen i Fforwm y CSCA nodi a thynnu sylw at yr heriau recriwtio drwy ei fudd-ddeiliaid a chydweithio gyda fforymau'r rhanbarth, Cyngor Gweithlu Addysg a Llywodraeth Cymru i ymdrechu i fynd i'r afael â'r mater o ddiffyg ymarferwyr cyfrwng Cymraeg, yn arbennig mewn rhannau penodol o ddarpariaeth (Deilliant 7).			✓	
40. Bydd Fforwm y CSCA hefyd yn amlygu a hyrwyddo'r angen am gynorthwywyr addysgu cyfrwng Cymraeg a staff cefnogi, a bydd yn nodi'r llwybrau dysgu a'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael i unigolion mewn ysgolion, colegau a dysgu sy'n seiliedig ar waith (Deilliant 7).			✓	

# ATODIAD 1

## Ychwanegiad Data y gofynnir amdano gan Lywodraeth Cymru

### Deiliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

#### Cynyddu'r ddarpariaeth

Beth yw canran y dysgwyr 7 oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

- Mae 12.5% o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Deiliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Beth yw canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)?

- 2016-17 CA3 – 10.5% sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)

Sut mae'r ffigur hwn yn cymharu â chanran y dysgwyr Blwyddyn 6 a aseswyd mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) dair blynedd yn gynharach?

- 2013-14 CA2 – 8.8% cafodd eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)

### Trosglwyddo effeithiol a pharhad ieithyddol

Beth yw cyfraddau dilyniant ieithyddol rhwng:

- Ileoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen;
- Ileoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau nas cynhelir a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen;
- Ileoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog;
- Ileoliadau gofal plant nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau nas cynhelir cyfrwng Cymraeg a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac wedyn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog;

Enw/Name	2015-16		Nodiadau/Comments
	Nifer yn trosglwyddo i addysg Gymraeg/ Numbers transferring to WM Education	% Trosglwyddo i addysg Gymraeg/ % transferring to WM Education	
Bodhyfryd	21	95.45%	
Brynycabanau (yb/am)	21	95.45%	
Brynycabanau (yp/pm) (Meithrin Plus)	40	100.00%	
Coedpoeth (yb)	17	100.00%	
Coedpoeth (yp)	21	100.00%	
Dechrau'n Deg Bodhyfryd	7	100.00%	
Dechrau'n Deg Min y Ddol			Dechrau'n Deg Min y Ddol + Min y Ddol wedi uno/ unified
Dechrau'n Deg Pant	4	50.00%	Cychwyn Gorau yn cael dylanwad/ Cychwyn Gorau having an impact
Glyn Ceiriog	10	100.00%	Dylanwad Cychwyn Gorau o Ti a Fi/ Impact of Cychwyn Gorau from Ti a Fi
Hill Street	10	100.00%	
I D Hooson	22	100.00%	
Maes y Gornel	30	100.00%	
Meithrin Mwy Bro Alun	37	90.24%	
Min y Ddol (yb/am)	16	100.00%	
Plas Coch (Meithrin Mwy)	33	100.00%	
Summerhill	7	77.78%	

\* Data 2015-16 yw'r data diweddaraf gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC). Bydd y data 2016-17 yn cael ei gyhoeddi gan LIC ym mis Tachwedd 2017.

- y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 – 86.4%



- Cyfnodau Allweddol 2 a 3 – 94.4%
- Cyfnodau Allweddol 3 a 4 – 100%

Os oes gan eich awdurdod ysgolion uwchradd dwyieithog (categori 2A, 2B, 2C a 2CH) mae angen darparu data ar gyfer pob ysgol gan ddangos faint o ddisgyblion sydd yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg a faint ohonynt sydd yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, fesul bob cyfnod allweddol os gwelwch yn dda.

- DIM.

**Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith**

**Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Beth yw canran y myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau pellach lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg?

- 100%

(Ni ddylech gynnwys llenyddiaeth Gymraeg. Mae TGAU cymhwysol, gwyddoniaeth ddwbl yn cyfrif fel dau bwnc; cyrsiau byr yn cyfrif fel un pwnc. Efallai na fydd yn bosibl cynnwys BTEC oherwydd nad yw'r corff dyfarnu yn gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg).

Beth yw targedau'r awdurdod ar gyfer cynyddu'r ganran hon? Gellir mynegi hyn naill ai fel targedau blynyddol neu fel un targed ar ddiwedd y Cynllun.

- Cynnal 100%

Beth yw canran y myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau pellach lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg?

- 100%

(Ni ddylech gynnwys llenyddiaeth Gymraeg. Mae TGAU cymhwysol, gwyddoniaeth ddwbl yn cyfrif fel dau bwnc; cyrsiau byr yn cyfrif fel un pwnc. Efallai na fydd yn bosibl cynnwys BTEC oherwydd nad yw'r corff dyfarnu yn gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg).

Beth yw targedau'r awdurdod ar gyfer cynyddu'r ganran hon? Gellir mynegi hyn naill ai fel targedau blynyddol neu fel un targed ar ddiwedd y Cynllun.

- Cynnal 100%

**Cynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion**

Beth yw canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy a) gyfrwng y Gymraeg b) yn ddwyieithog (e.e. elfennau o gymwysterau/modiwlau)?

Canaran o ddisgyblion 17 oed sy'n astudio pynciau sy'n gyfateb â 2 Lefel A a lwyddodd i gyrraedd trothwy Lefel 3 yn Ysgol Morgan Llwyd

- 100%

**Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

**Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg iaith Gyntaf**

Beth yw canran y disgyblion diwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 5 mewn iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog?

- 2016 CS – 88.4% yw canran y disgyblion lwyddodd i gyrraedd o leiaf Deilliant 5 mewn iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn Cymraeg.

Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg?

- 2016 CA2 – 92.5% yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn asesiadau athro mewn Cymraeg.

Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg?

- 2016 CA3 – 97.5% yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn asesiadau athro mewn Cymraeg.

Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg iaith Gyntaf?

- 2016 CA4 – 76.7% o ddisgyblion sydd wedi cyrraedd graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg iaith Gyntaf

### **Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg ail iaith**

Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail iaith?

- 2016 CA2 – 80.3% sydd wedi cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn asesiadau athro mewn Cymraeg Ail iaith

Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail iaith?

- 2016 CA3 – 78.1% sydd wedi cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn asesiadau athro mewn Cymraeg Ail iaith

Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Llawn?

- 2016 CA4 – 80.3% sydd wedi cyrraedd graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Llawn

Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Byr?

- 2016 CA4 – 54.5% sydd wedi cyrraedd graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Byr

Beth yw eich targedau ar gyfer gwella ym mhob un o'r uchod – naill ai yn flynyddol neu ar ddiwedd cyfnod y Cynllun tair mlynedd?

- Cynyddu'r nifer y dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster Cymraeg ail iaith llawn yng Nghyfnod Allweddol 4 yn unol â'r newidiadau arfaethedig i'r cymhwyster CBAC yn 2017 a thu hwnt, ac i barhau i gynnal, yn ogystal â gwella perfformiad y dysgwyr yn y pwnc.

#### *Cymraeg iaith Gyntaf*

<b>Y Sefyllfa Bresennol</b>	<b>2017/2018</b>	<b>2018/2019</b>	<b>2019/2020</b>
<b>% Deilliant CS 5 = 88.4% (Cymru 90.7%)</b>	93.5%	94.0%	94.4%
<b>% Deilliant 6 CS = 31% (Cymru 36.2%)</b>	42.8%	44.7%	45%
<b>% L4+ CA2 = 92.5% (Cymru 90.8%)</b>	96.6%	97.9%	98.4%
<b>% L5+ CA2 = 26.4% (Cymru 36.6%)</b>	41.5%	43.5%	45%
<b>% L5+ CA3 = 97.5% (Cymru 92%)</b>	99.4%	100%	100%
<b>% L6+ CA3 = 79% (Cymru 57.2%)</b>	83%	85%	85.5%
<b>% L2 CA4 = 76.7% (Cymru 75.1%)</b>	80.5%	81%	81.5%

Cymraeg ail iaith

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
% L4+ CA2 = 80.3% (Cymru 77.9%)	82%	83%	85%
% L5+ CA2 = 25.9%	27%	28.5%	30%
% L5+ CA3 = 78.1% (Cymru 81.9%)	82%	85%	87%
% L6+ CA3 = 31.6% (Cymru 44.6%)	40%	45%	50%
% L2 CA4 = 76.4% (Cymru 70.5%)	77%	78%*	79%*

\*Bydd y canlyniadau yn seiliedig ar y TGAU Cymraeg ail iaith llawn newydd a gyflwynwyd ym Medi 2017.

Pa ganran o'r garfan sydd wedi cofrestru ar gyfer (i) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn; (ii) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr; a (iii) heb eu cofrestru ar gyfer y naill na'r llall?

- (i) 45.1%
- (ii) 41.3%
- (iii) 13.6%

**Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch**

Beth yw cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf presennol fel canran o'r cofrestriadau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ddwy flynedd yn gynharach?

- 3.2%

Beth yw cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg ail iaith presennol fel canran o'r cofrestriadau TGAU Cymraeg Ail Iaith cwrs llawn a byr ddwy flynedd yn gynharach?

- 1%

**Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg**

- Dim data

**Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus**

- Dim data

GWEITHREDU/ACTIONS	Cyfrifoldeb gweithredu/ Responsibility for action	Amserlen llwyddiant/ Timescale for achievement	Targedau neu feini prawf llwyddiant/ Targets or success criteria	Costau neu Adnoddau/ Cost or Resources	Cynnydd a sylwadau/ Progress and comments (RAG)
<b>IS-GRŴP DARPARIAETH / PROVISION SUB-GROUP</b>					
<p><b>Pwynt gweithredu:</b> Gweithredu'r cynlluniau sydd wedi cael eu hadnabod i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn cylch y CSGA (2017-2020), fydd yn golygu cynyddu'r capasiti o 401 o lefydd ychwanegol wedi'i ddatblygu ar draws y sector cynradd ac uwchradd.</p> <p><b>Point of action:</b> Implement the projects that have been identified to further develop Welsh medium provision within the cycle of the WESP (2017-2020), which should result in an increase in capacity of 401 additional places being developed spread across the primary and secondary phases.</p>					
•					<b>Bydd sylwadau ar y cynnydd yn cael eu</b>
•					<b>hychwanegu fel bo'r angen / Comments on</b>
•					<b>progress will be included here as necessary</b>
<p><b>Pwynt gweithredu:</b> Gweithredu'r cynllun 'Cymraeg i Blant' fydd yn hyrwyddo'r manteision a'r budd o fod yn ddwyieithog a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i rieni.</p> <p><b>Point of action:</b> Implement the 'Cymraeg i Blant' scheme which will promote the advantages and benefits of being bilingual and Welsh medium provision to parents.</p>					
•					
•					
•					

GWEITHREDU/ACTIONS	Cyfrifoldeb gweithredu/ Responsibility for action	Amserlen llwyddiant/ Timescale for achievement	Targedau neu feini prawf llwyddiant/ Targets or success criteria	Costau neu Adnoddau/ Cost or Resources	Cynnydd a sylwadau/ Progress and comments (RAG)
<b>IS-GRWP SAFONAU / STANDARDS SUB-GROUP</b>					
<p><b>Pwynt gweithredu:</b> Ymchwilio i wybodaeth am y farchnad lafur i bennu anghenion economaidd yr ardal leol gan gynnwys manteision a chyfleoedd i fod yn siaradwyr dwyieithog a sicrhau bod partneriaethau effeithiol 14-16 a 16-19 yn nodi ac yn amlygu'r cyfleoedd yn yr economi ble mae'r defnydd o'r Gymraeg yn bwysig ar gyfer gwaith</p> <p><b>Point of action:</b> Research into labour market intelligence to determine the economic needs of the local area including advantages and opportunities from being bilingual speakers and ensure that 14-16 and 14-19 partnerships identify and highlight the opportunities in the economy where the use of Welsh is important for work</p>					
•					<b>Bydd sylwadau ar y cynnydd yn cael eu</b>
•					<b>hychwanegu fel bo'r angen / Comments on</b>
•					<b>progress will be included here as necessary</b>
<p><b>Pwynt gweithredu:</b> Gwella pontio Cymraeg ail iaith rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â chodi dyheadau a chyrhaeddiad dysgwyr yn CA2 ac yn benodol CA3.</p> <p><b>Point of action:</b> Improve the bridging of Welsh second language between primary and secondary schools, as well as raising learners' aspirations and attainment at KS2 and specifically at KS3.</p>					
•					
•					
•					

GWEITHREDU/ACTIONS	Cyfrifoldeb gweithredu/ Responsibility for action	Amserlen llwyddiant/ Timescale for achievement	Targedau neu feini prawf llwyddiant/ Targets or success criteria	Costau neu Adnoddau/ Cost or Resources	Cynnydd a sylwadau/ Progress and comments (RAG)
<b>IS-GRŴP Y GWEITHLU / WORKFORCE SUB-GROUP</b>					
<p>Pwynt gweithredu: Datblygu sgiliau iethyddol ymarferwyr mewn Cymraeg er mwyn ymateb i ofynion deilliannau'r CSGA.  <b>Point of action: Develop the linguistic skills of practitioners in Welsh in order to respond to the requirements of the WESP's outcomes.</b></p>					
•					<b>Bydd sylwadau ar y cynnydd yn cael eu</b>
•					<b>hychwanegu fel bo'r angen / Comments on</b>
•					<b>progress will be included here as necessary</b>
<p>Pwynt gweithredu: Cyfrannu i drafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol a datblygu mentrau er mwyn ymateb i'r heriau sy'n gwynebu materion capasiti staffio a recriwtio o fewn y sector cyfrwng Cymraeg.  <b>Point of action: Contribute to regional and national discussions and develop initiatives to respond to the challenges of staff capacity issues and recruitment within the Welsh medium sector.</b></p>					
•					
•					
•					